**Polisi Cynllunio Cymru**

# Nodyn Cyngor Technegol 15
# Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol

## Ionawr 2023

Fersiwn ymgynghori

## Cynnwys


1 Cyflwyniad

2 Llifogydd, erydu arfordirol a chreu lleoedd

3 Cefndir

4 Egwyddorion y TAN

5 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio

6 Natur datblygu neu ddefnydd tir

7 Llifogydd a’r system a arweinir gan gynllun

8 Perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin

9 Perygl arfordirol – erydu a llifogydd

10 Cyfiawnhau lleoliad datblygiad

11 Derbynioldeb canlyniadau llifogydd

12 Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd

13 Dyluniad cydnerth

14 Ystyriaethau penodol ar gyfer ceisiadau cynllunio

## 1. Cyflwyniad

1.1 Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chael ei gymryd i ystyriaeth gan awdurdodau cynlluniau yng Nghymru wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Gall hefyd fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau a ddaw ger eu bron.

1.2 Mae’r TAN hwn yn cynnig arweiniad technegol sy’n ategu’r polisïau a nodir yn PCC mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol. Mae’n fframwaith ar gyfer asesu perygl llifogydd sy'n deillio o afonydd, y môr a dŵr wyneb a'r risg o erydu arfordirol. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ganlyniadau’r risgiau ac ar addasu i berygl llifogydd a byw gydag ef. Nid yw'n cael blaenoriaeth dros Nodiadau Cyngor Technegol eraill a dylid ei ddehongli ochr yn ochr â pholisïau cynllunio eraill.

**Mae'r ddogfen hon yn disodli’r canllawiau presennol yn y fersiwn gyfredol o Nodyn Cyngor Technegol 14, a gyhoeddwyd ym 1998 a Nodyn Cyngor Technegol 15, a gyhoeddwyd yn 2004. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu na phenderfyniadau cynllunio gyfeirio at y dogfennau hynny mwyach.**

## 2. Llifogydd, erydu arfordirol a chreu lleoedd

2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi mai creu lleoedd cynaliadwy yw uchelgais cyffredinol y system gynllunio. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i gysyniad creu lleoedd gael ei gofleidio wrth lunio Cynlluniau Datblygu ac wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu. Mae PCC yn nodi pum egwyddor allweddol creu lleoedd, er mwyn helpu i lywio sut yr eir ati i gynllunio:

- Sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i’r eithaf a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau
- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy
- Creu a chynnal cymunedau

2.2 Rhaid i ystyriaeth lawn o lifogydd ac erydu arfordirol fod yn sail i'r gwaith o gynllunio ar gyfer mannau cynaliadwy yn y dyfodol. Rhaid i'r risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau llifogydd gael eu hystyried wrth wneud

penderfyniadau heddiw. Nid yw'r TAN hwn yn ceisio atal adfywiad priodol o'n trefi a'n dinasoedd; yn hytrach, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod rhaid i weithgareddau o'r fath ystyried perygl llifogydd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi mentrau addasu yn glir ac, yn anad dim, peidio â rhoi cymunedau mewn sefyllfa risg annerbyniol yn fwriadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi adfywiad priodol ac yn cynnal polisi canoli tref yn gyntaf ar gyfer buddsoddi yn y sector cyhoeddus, a nodir yn Cymru'r Dyfodol a PCC. Byddai'n annoeth buddsoddi mewn cynlluniau a gydnabyddir fel rhai sy'n debygol o ddioddef llifogydd. Nid yw'r angen i ddarparu a chynnal amddiffynfeydd llifogydd fel rhan o weithgareddau adfywio erioed wedi bod yn fwy amlwg. Mae'r TAN hwn yn rhoi cyngor i alluogi awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr i fodloni'r gofynion a nodir yn PCC. Mae'n ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng dyheadau i ailddatblygu ac adfywio ein trefi a'n dinasoedd a chydnabod y bygythiad go iawn a achosir gan y newid yn yr hinsawdd a llifogydd.

## 3. Cefndir

3.1 Gall canlyniadau llifogydd fod yn rhai difrifol iawn. Gallant ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ac yn aml heb lawer o rybudd. Mae llifogydd yn digwydd yn amlach ac maent yn mynd yn fwyfwy difrifol a disgwylir i'r duedd hon gynyddu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gall llifogydd beryglu bywydau, achosi trawma personol difrifol, gosod pwysau ar y gwasanaethau brys ac amharu yn ddifrifol ar gyfathrebu, busnes a masnach.

3.2 Mae topograffeg a hanes diwydiannol Cymru wedi arwain ar y cyfan at gydgrynhoi datblygiadau a seilwaith trafnidiaeth ar loriau dyffrynnoedd, yn ardaloedd yr iseldir ac ar yr ymylon arfordirol. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth wedi'i lleoli mewn canolfannau trefol arfordirol, gan gynnwys Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd ac aneddiadau arfordirol y gogledd. Ledled y wlad, mae tua 162,000 o eiddo yn wynebu tebygolrwydd o 1 mewn 100 neu fwy o lifogydd o'r môr neu o afonydd neu ddŵr wyneb mewn blwyddyn benodol.[1]

3.3 Mae ardaloedd arfordirol yn wynebu cyfuniad cymhleth o fygythiadau, gan gynnwys llifogydd, erydiad ac ansefydlogrwydd tir. Mae arfordir Cymru, sy'n ymestyn dros 2,700km, yn ardal arbennig o amrywiol, sy'n cyfuno aneddiadau trefol a phorthladdoedd â thraethau ysgubol a chlogwyni garw. Ceir tua 415km o amddiffynfeydd arfordirol adeiledig rhag llifogydd o amgylch Cymru, tra bo erydiad arfordirol yn digwydd ar hyd tua 346km o arfordir Cymru, gyda thros 400 o gartrefi mewn perygl.[2]

3.4 Mae'r dull a nodir yn y TAN hwn yn sicrhau bod llifogydd ac erydu ar yr arfordir yn cael ystyriaeth briodol wrth lunio cynlluniau a rheoli datblygu.

### Newid yn yr Hinsawdd

3.5 Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru ar bennu a chyflawni cyllidebau carbon a pharatoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae wedi datgan ei fod yn disgwyl i'r hinsawdd yng Nghymru ddod yn gynhesach ac yn wlypach, gyda chodiadau sylweddol yn lefel y môr o amgylch yr arfordir ac amlder a dwyster stormydd. Bydd hyn yn cynyddu perygl llifogydd ac mae hefyd yn rhesymol disgwyl i nifer a difrifoldeb llifogydd gynyddu. Mae'r TAN hwn yn nodi ffyrdd y gall y system gynllunio gynorthwyo cymunedau a phobl i osgoi dioddef effeithiau llifogydd, a datblygu mwy o gydnerthedd lle na ellir osgoi hynny.

3.6 Mae cyswllt annatod rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy ac i gynyddu i'r eithaf

[1] Ffynhonnell: Asesiad Perygl Llifogydd Cymru 2019
[2] Ffynhonnell: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)

eu cyfraniad at gyrraedd y nodau llesiant. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd a chymryd camau i atal a lliniaru problemau parhaus megis effeithiau newid yn yr hinsawdd.

**Yswiriant**

3.7 Mae cost yswirio eiddo newydd sydd mewn perygl o brofi llifogydd yn debygol o fod yn sylweddol uwch na chost yswirio eiddo nad yw mewn perygl. Gall eiddo a adeiladwyd cyn 2009 elwa ar *Flood:Re*, cynllun sy’n capio cost yswirio cartrefi sydd mewn perygl o brofi llifogydd tan 2039. Nid yw’r cynllun ar gael i gartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009, ac eithrio anheddau newydd a adeiladwyd yn lle cartrefi a oedd yn bodoli eisoes ar yr un ôl troed. Felly dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y gallai cartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu mewn ardaloedd lle y ceir perygl o lifogydd dalu premiymau uchel iawn sy’n adlewyrchu’r perygl y maent yn ei wynebu, neu beidio â chael yswiriant. Os na ellir yswirio cartref, bydd hynny yn effeithio ar y siawns o sicrhau morgais.

3.8 Mae fforddiadwyedd yswiriant, a chostau cysylltiedig ymdrin â chanlyniadau llifogydd, yn atgyfnerthu egwyddor gyffredinol osgoi datblygu mewn ardaloedd lle bydd canlyniadau llifogydd yn annerbyniol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan y bydd Flood:Re yn dod i ben yn 2039.

3.9 Cynghorir awdurdodau cynllunio neu ddatblygwyr sy’n ystyried datblygu mewn ardaloedd lle mae mwy o risg i geisio barn cwmnïau yswiriant ar adeg gynnar. Efallai y bydd cwmnïau yswiriant eu hunain yn dymuno bod yn rhan o baratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd neu wneud sylwadau ar Gynlluniau Datblygu.

3.10 Mewn ardaloedd lle y ceir risg o erydu arfordirol, mae'n anodd iawn cael yswiriant cartref sy'n cwmpasu'r risg o erydu. Felly, nid yw'n briodol caniatáu i ragor o gartrefi newydd gael eu hadeiladu mewn ardaloedd o'r fath.

## 4. Egwyddorion y TAN

4.1 Mae'r TAN yn adlewyrchu egwyddorion craidd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru,[3] sef mabwysiadu dull gweithredu ar sail risg ar gyfer datblygiad mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Nod y cyngor yn y ddogfen hon yw sicrhau bod perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael ystyriaeth briodol yn y system gynllunio.

*Wrth ystyried y risg sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol, mae'r term 'risg' yn cwmpasu dau beth:*

*1 – Pa mor debygol yw digwyddiad*

*2 – Yr effaith y byddai llifogydd neu erydu arfordirol yn ei chael.*

4.2 Mae'r gallu i osgoi neu leihau risg wrth ymgymryd â datblygiad yn amrywio yn ôl y math o ddatblygiad a gynigir. Felly, mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor mewn perthynas â phedwar math o ddatblygiad.

| **Datblygiad newydd** | **Ailddatblygiad** |
|---|---|
| Datblygu ar unrhyw faes glas; datblygu safleoedd tir llwyd gwag neu segur. | Disodli (yn llawn neu'n rhannol) adeilad(au) sy'n bodoli eisoes ac sydd mewn defnydd gydag adeilad(au) newydd. |
| **Newid defnydd neu addasu** | **Estyniadau** |
| Defnyddio adeilad sy'n bodoli eisoes at ddiben gwahanol i'w ddefnydd presennol, heb newid ôl troed yr adeilad yn sylweddol. | Ychwanegu capasiti at adeilad sy'n bodoli eisoes drwy ymestyn ei arwynebedd llawr. |

4.3 Mae canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yn nodi pan fyddant yn berthnasol i fathau penodol o ddatblygiad. Defnyddir y term ehangach 'datblygiad' pan fydd canllawiau'n berthnasol i'r pedwar math. Prif ffocws y ddogfen yw rheoli'n briodol gynigion ar gyfer datblygiad newydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, gan mai dyma le mae'r system gynllunio yn gallu cael yr effaith fwyaf o ran rheoli a yw pobl, eiddo a seilwaith yn agored i berygl llifogydd. Dylai awdurdodau cynllunio benderfynu pa ddisgrifiad sy'n berthnasol.

### Perygl llifogydd – afonydd a'r môr

4.4 Mae'r dull gweithredu'n cydnabod yr amryfal raddfeydd o berygl llifogydd, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Mapiau Perygl Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn categoreiddio tir yn barthau gwahanol yn dibynnu ar ba mor agored ydynt i

[3] Cyhoeddir y strategaeth genedlaethol yma: https://www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru

llifogydd. Nodir manylion y parthau hyn yn Adran 5. Y nod cyffredinol wrth ystyried datblygiadau newydd yw atal amlygiad i risg, drwy wneud dewisiadau lleoliadol yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

- Cyfeirio datblygiadau newydd i leoedd lle mae perygl llifogydd yn isel iawn – ardaloedd ym **Mharth 1**;
- Galluogi datblygiadau newydd a all wrthsefyll llifogydd mewn ardaloedd lle y ceir amddiffynfeydd rheoli perygl llifogydd ffurfiol sy'n lleihau perygl llifogydd a'i ganlyniadau dros oes y datblygiadau - ardaloedd ym **Mharthau Amddiffynnol TAN 15**;
- Caniatáu datblygiadau newydd a all wrthsefyll llifogydd mewn ardaloedd diamddiffyn lle mae perygl cymharol isel – ardaloedd ym **Mharth 2**;
- Caniatáu dim ond datblygiadau sy’n gydnaws â dŵr, seilwaith hanfodol a datblygiadau sydd dan lai o fygythiad drwy eithriad mewn ardaloedd lle mae perygl uwch – ardaloedd ym **Mharth 3**.

4.5 Gellir ystyried cynigion ar gyfer ailddatblygu, newid defnydd, addasiadau ac estyniadau yn wahanol i ddatblygiad newydd. Os oes datblygiad eisoes yn bodoli a bod y defnydd o'r tir neu'r adeilad wedi'i sefydlu, gall datblygiad pellach fod yn gyfle i gynyddu gallu’r adeilad i wrthsefyll llifogydd. Os nad oes modd gwella gallu adeiladau i wrthsefyll llifogydd, y disgwyliad yw na fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

4.6 Mae’r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy’n dangos parthau llifogydd sy'n sbarduno profion cyfiawnhau a derbynioldeb;
- Diffinio datblygiadau yn ôl faint o fygythiad y maent yn ei wynebu yn ystod digwyddiadau llifogydd;
- Cyngor ynghylch defnyddiau y gellir eu caniatáu mewn perthynas â lleoliad datblygiad a chanlyniadau llifogydd;
- Awdurdodau cynllunio yn ymgorffori ystyriaethau lleol o ran perygl llifogydd yn eu polisïau a'u penderfyniadau cynllunio.

4.7 Mae’r dull gweithredu’n berthnasol i brosesau Cynllunio Datblygu a Rheoli Datblygu.

**Perygl llifogydd – dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin**

4.8 Mae'r dull gweithredu seiliedig ar risg yn cydnabod na ellir rheoli na lliniaru perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin bob amser, yn enwedig am fod y rhain yn ffynonellau risg cynyddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn darparu gwybodaeth am y risgiau hyn er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n briodol i'r ardal leol ar gyfer ardaloedd lle y ceir perygl o

llifogydd neu ardaloedd sy'n agos at berygl o lifogydd. Mae Parth 3 yn dynodi ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf, wedi'i ddilyn gan Barth 2. Gellir ymgorffori dulliau gweithredu sy'n briodol i'r ardal leol yn y Cynllun Datblygu gan ddefnyddio polisïau lleol ac yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio.

**Erydu arfordirol**

4.9 Dylid osgoi datblygu lle mae perygl y bydd erydu arfordirol yn effeithio ar y safle yn ystod oes y datblygiad. Dylai polisïau cynllunio lleol ar gyfer ardaloedd arfordirol adlewyrchu ac ategu Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, Datganiadau Ardal a strategaethau perthnasol eraill.

**Rolau a chyfrifoldebau**

4.10 Mae gan nifer o gyrff a sefydliadau rolau pwysig o ran sicrhau bod amcanion PCC a'r TAN hwn yn cael eu cyflawni. Caiff rolau allweddol mewn perthynas â gwahanol agweddau ar y broses gynllunio eu hamlygu drwy'r ddogfen hon.

4.11 Yn y system a arweinir gan gynllun yng Nghymru, mae pennu strategaethau, polisïau a dyraniadau safle priodol ac effeithiol mewn Cynlluniau Datblygu yn allweddol bwysig. Dylai'r awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi'r cynlluniau hyn ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth adrannau perthnasol mewn awdurdodau lleol. Mae rôl bwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd fel prif gynghorydd technegol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac adnoddau naturiol. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y gwasanaethau brys.

4.12 Caiff y rhan fwyaf o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio eu gwneud yn lleol, tra bod Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am apeliadau, ceisiadau a alwyd i mewn a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae penderfynwyr yn gyfrifol am benderfynu a oes cyfiawnhad am y cynnig ac a yw canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Lle mae llifogydd ac erydu arfordirol yn ystyriaethau, bydd angen ymgynghori ag Awdurdodau Rheoli Risg[4], er mwyn rhoi cyngor a ddylai gael ei ystyried gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad.

4.13 Rhaid i ymgeiswyr a darpar ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth ffeithiol gywir i alluogi'r penderfynwr i asesu cynigion yn erbyn gofynion PCC a'r TAN hwn.

[4] Nodir Awdurdodau Rheoli Risg yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae cyfanswm o 28, gan gynnwys Awdurdodau Lleol (fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Awdurdodau Priffyrdd Lleol ac Awdurdodau Erydu Arfordirol), Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru (fel yr awdurdod cefnffyrdd) a Chwmnïau Dŵr.

Bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno gyda chais cynllunio, er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud o fewn terfynau amser statudol.

**Monitro**

4.14 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd PCC a TAN 15 drwy Gyfarwyddyd Hysbysu a Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy.

4.15 Mae'r **Cyfarwyddyd Hysbysu** yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am geisiadau cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio o blaid eu cymeradwyo ar gyfer datblygiadau newydd dan fygythiad mawr ym Mharth 3 – Afonydd a'r Môr. Bydd gan Weinidogion Cymru yr opsiwn i alw'r cais i mewn er mwyn iddynt benderfynu arno eu hunain.

4.16 Mae'r **Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy** yn rhan o arolwg blynyddol o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cynllunio. Mae'n cynnwys nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.

## 5. Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio

5.1 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (FRAW), gyda'i gilydd, yn ffurfio Map Llifogydd Cymru.[5] Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw'r man cychwyn ar gyfer ystyried perygl llifogydd yn y system gynllunio. Mae'r map yn defnyddio parthau llifogydd i ddynodi i ba raddau y mae tir mewn perygl o lifogydd a achosir gan afonydd, y môr, dŵr wyneb neu gyrsiau dŵr bach. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau gweithredu y dylid eu cymryd wrth ystyried datblygiadau yn y parthau llifogydd gwahanol. Mae Ffigur 2 yn rhoi'r diffiniad o'r prif barthau. Cyfeirir at Barthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15, gyda'i gilydd, fel 'ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd' yn y ddogfen hon.

**Ffigur 1 – Diffiniad o barthau llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio**

| Parth | Llifogydd o afonydd | Llifogydd o'r môr | Llifogydd a achosir gan ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach |
|---|---|---|---|
| 1 | Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 1000 (0.1%) (a newid yn yr hinsawdd) o lifogydd mewn blwyddyn benodol | | |
| 2 | Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. | Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 200 (0.5%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. | Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. |
| 3 | Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. | Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 200 (0.5%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. | Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. |
| Parthau Amddiffynnol TAN 15 | Ardaloedd lle mae'r seilwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn rhoi safon ofynnol o | Ardaloedd lle mae seilwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn rhoi | Ddim yn gymwys. |

[5] Gellir gweld Map Llifogydd Cymru, gan gynnwys y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn: Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru) (naturalresources.wales).

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a map FRAW yn cynnwys rhai setiau data dyblyg ond maent wedi'u targedu at ddefnyddwyr gwahanol e.e. mae FRAW yn dangos y perygl llifogydd presennol tra bod y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos perygl llifogydd a ragwelir yn y dyfodol dros oes datblygiad.

| | |
|---|---|
| ddiogelwch yn erbyn llifogydd o afonydd o 1:100 (ynghyd â newid yn yr hinsawdd a bwrdd rhydd[6]). | safon ofynnol o ddiogelwch yn erbyn llifogydd o'r môr o 1:200 (ynghyd â newid yn yr hinsawdd a bwrdd rhydd). |

5.2 Dengys y map ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd a achosir gan **ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach,** wedi'u rhannu'n 'Barth Llifogydd 2' ac yn 'Barth Llifogydd 3'. Mae'r rhain yn ystyriaethau i awdurdodau cynllunio ac mae'n rhaid eu hintegreiddio mewn prosesau cynllunio a phrosesau gwneud penderfyniadau. Ar gyfer rhai datblygiadau, bydd yn bosibl ac yn briodol cynnwys mesurau rheoli a lliniaru (gweler adran 8). Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio hefyd yn dangos Digwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd sy'n cwmpasu rhai ardaloedd y tu allan i'r prif barthau llifogydd y gwyddys eu bod wedi mynd dan ddŵr yn y gorffennol.[7] Dylai'r digwyddiadau hyn a gofnodwyd lywio polisïau cynllunio sy'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol.

5.3 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio hefyd yn galluogi defnyddwyr i weld ardaloedd a allai wynebu llifogydd o **gronfeydd**. Mae safon y gwaith cynnal a chadw ar gronfeydd Cymru yn uchel iawn ac, felly, ni ddylai lleoli cartrefi a busnesau mewn ardaloedd a allai fod o dan ddŵr a ddaw o gronfeydd fod yn rhywbeth i'w ofni. Cynigir yr wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod trafodaethau agored ac adeiladol yn cael eu cynnal rhwng awdurdodau cynllunio a gweithredwyr neu berchenogion cronfeydd os bydd i gynlluniau datblygu oblygiadau i gategori risg y gronfa. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 7.

**Defnyddio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio**

5.4 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar gael i unrhyw un sy'n cynllunio ac yn ymgymryd â phrosiectau datblygu neu adeiladu (gan gynnwys y rheini nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer). Mae'n helpu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i nodi polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol i'w helpu i benderfynu a yw datblygu'n briodol ai peidio.

5.5 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos perygl llifogydd a ragwelir yn y dyfodol o dan yr amcangyfrif canolog o newid yn yr hinsawdd. Bydd gofyn cynnal Asesiadau manwl o Ganlyniadau Llifogydd er mwyn ystyried amrywiaeth o senarios newid hinsawdd, gan gynnwys yr amcangyfrifon

[6] Mae lwfansau newid yn yr hinsawdd a bwrdd rhydd yn ofynnol ar unrhyw gynllun amddiffyn rhag llifogydd a gynlluniwyd ac a adeiladwyd ers 2016. Mae bwrdd rhydd yn cyfeirio at y lwfans ansicrwydd a ddefnyddir wrth ddylunio cynlluniau rheoli perygl llifogydd a'u rhoi ar waith, megis argaeau neu argloddiau pridd.

[7] Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael am Ddigwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd yn gynhwysfawr, am nad yw maint llifogydd wedi'i gofnodi'n gywir bob amser.

uchaf, gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid yn yr hinsawdd at ddibenion cynllunio.

5.6 Dangosir ardaloedd lle y ceir amddiffynfeydd ffurfiol cadarn rhag llifogydd a gaiff eu cynnal a'u cadw neu eu dynodi gan Awdurdodau Rheoli Risg ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel Parthau Amddiffynnol TAN 15.

5.7 Nid yw'r ffaith bod amddiffynfeydd cadarn rhag llifogydd yn bodoli yn golygu y dylid caniatáu datblygu heb ystyried perygl llifogydd ymhellach. Mae amddiffynfeydd o'r fath yn lleihau perygl llifogydd ond nid ydynt yn ei ddileu'n llwyr. Gall canlyniadau llifogydd fod yn rhai difrifol iawn os bydd dŵr yn llifo dros amddiffynfeydd neu drwyddynt. Mae gan Barthau Amddiffynnol TAN 15 amddiffynfeydd sy'n eu diogelu rhag o leiaf un ffynhonnell o lifogydd – y môr neu afonydd, neu'r ddau mewn rhai achosion. Gall rhai ardaloedd ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15 fod yn agored i ffynonellau eraill o berygl llifogydd ac, felly, bydd yn bwysig asesu pob ffynhonnell o berygl llifogydd. Bydd yn bwysig dangos bod unrhyw ddatblygiadau newydd ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15 yn cynnwys mesurau gwydnwch a gwrthsefyll llifogydd er mwyn iddynt barhau i fod yn rhydd o lifogydd ac yn ddiogel yn unol â'r amodau y gellir eu goddef, a nodir yn adran 11.

5.8 Nid yw ardaloedd lle mae amddiffynfeydd yn rhoi lefelau o ddiogelwch islaw'r diffiniad a roddir yn Ffigur 1 yn Barthau Amddiffynnol TAN 15. Nid yw safon y diogelwch a gynigir gan amddiffynfeydd o'r fath yn ddigonol i gyfiawnhau rhagor o ddatblygiadau yn yr ardaloedd hynny. Os bydd buddsoddi yn yr amddiffynfeydd hyn yn golygu eu bod yn rhoi'r safon angenrheidiol o ddiogelwch, caiff y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ei ddiweddaru. Lle nad yw amddiffynfeydd yn cael eu rheoli gan Awdurdodau Rheoli Risg, nid oes digon o sicrwydd y cânt eu cynnal a'u cadw. Yn yr un modd, ni ellir tybio y bydd nodweddion seilwaith sy'n rhoi rhywfaint o ddiogelwch ond nad ydynt yn amddiffynfeydd ffurfiol rhag llifogydd, megis arglawddiau rheilffyrdd, yn aros yn eu lle. Felly, nid yw'r mathau hyn o amddiffynfeydd yn creu Parthau Amddiffynnol at ddibenion cynllunio.

**Diweddariadau i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio**

5.9 Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli a diweddaru'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Fel un o elfennau Map Llifogydd Cymru, caiff ei ddiweddaru bob 6 mis er mwyn adlewyrchu newidiadau wedi'u modelu i barthau llifogydd. O ganlyniad i'r diweddariadau hyn, gall y parthau llifogydd ymestyn neu leihau a gall rhai ardaloedd gael eu hailddiffinio.

5.10 Caiff Parthau Amddiffynnol TAN 15 newydd neu estynedig eu creu os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod amddiffynfeydd cymwys yn rhoi safon o ddiogelwch sy'n ateb y diffiniad a roddir yn Ffigur 1 neu'n rhagori arno.

Dylai Awdurdodau Rheoli Risg roi'r wybodaeth hon i Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol.[8]

5.11 Gall trydydd partïon geisio newid y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio gan ddefnyddio proses newid map llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd heriau llwyddiannus yn arwain at ddiweddaru'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd her i'r map wedi'i derbyn gan CNC, bydd hyn yn dod yn ystyriaeth berthnasol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gael effaith o'r adeg pan fydd CNC yn ei derbyn.

5.12 Fel ffordd arall o sicrhau bod y map yn parhau i fod yn gywir, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r Parthau Amddiffynnol TAN 15 presennol ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio o bryd i'w gilydd, bob dwy i dair blynedd, fwy neu lai. Os canfyddir bod safon y diogelwch a roddir gan amddiffynfeydd wedi disgyn o dan y trothwy, bydd angen dileu'r Parth Amddiffynnol ac ailddosbarthu'r ardaloedd yr effeithir arnynt yn Barth Llifogydd 2 neu 3.

*I gael cyngor a gwybodaeth am y perygl llifogydd ar hyn o bryd i eiddo sy'n bodoli eisoes, mae map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (FRAW) yn rhoi darlun cynhwysfawr o natur a maint y risgiau a'r peryglon. FRAW yw'r elfen allweddol arall o Fap Llifogydd Cymru.*

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Cynnal y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a rheoli proses herio'r map llifogydd – Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyhoeddi'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Cyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys drwy'r porth-daear cenedlaethol MapDataCymru)

Darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru am berygl llifogydd sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach i'w chynnwys yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol

Diweddaru gwybodaeth am seilwaith amddiffyn rhag llifogydd – Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio data o'r Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol

Darparu gwybodaeth am amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd, amddiffynfeydd rhag llifogydd sydd wedi'u gwella ac amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan ddefnyddio'r Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol – pob Awdurdod Rheoli Risg

[8] Mae paragraff 119 o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn rhoi manylion am y Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol.

## 6. Bygythiad llifogydd

6.1 Gall canlyniadau llifogydd fod yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau, ac mae hynny'n cael dylanwad o ran lle mae'n dderbyniol lleoli datblygiadau. Er enghraifft, gall llifogydd mewn ardaloedd preswyl gael effaith drawmatig ar fywydau pobl. Fodd bynnag, efallai y bydd ffyrdd eraill o ddefnyddio tir yn gallu rheoli llifogydd anaml neu lefel is mewn ffordd dderbyniol – gall llifogydd o'r math hwn fod yn drafferthus ond nid ydynt yn debygol o fod yn beryglus. Mae Ffigur 2 yn categoreiddio mathau o ddatblygiadau yn ôl y bygythiad y maent yn ei wynebu os ceir llifogydd.

**Ffigur 2 – Categorïau bygythiad llifogydd**

| Categori bygythiad | Mathau |
|---|---|
| Datblygiad sydd dan fygythiad mawr | Pob mangre breswyl (gan gynnwys gwestai, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, meysydd carafannau a safleoedd gwersylla).<br><br>Ysgolion a sefydliadau gofal plant.<br><br>Ysbytai a meddygfeydd.<br><br>Datblygiadau diwydiannol sydd dan fygythiad mawr (e.e. y rhannau o orsafoedd ynni sy'n cynhyrchu ac yn dosbarthu pŵer, trawsnewidyddion, gweithfeydd cemegol, llosgwyr) a safleoedd gwaredu gwastraff.<br><br>Gwasanaethau brys, gan gynnwys: gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd yr heddlu, canolfannau rheoli, depos brys.<br><br>Adeiladau a ddefnyddir i ddarparu lloches brys pan geir llifogydd. |
| Datblygiad sydd dan lai o fygythiad | Datblygiadau diwydiannol, cyflogaeth, masnachol a manwerthu cyffredinol.<br><br>Seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau.<br><br>Meysydd parcio.<br><br>Safleoedd cloddio am fwynau a chyfleusterau prosesu cysylltiedig (gan gynnwys safleoedd gwaredu gwastraff).<br><br>Adeiladau cyhoeddus gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau hamdden (ac eithrio'r rhai y nodir eu bod yn llochesi brys).<br><br>Mannau addoli. |

| | |
|---|---|
| | Mynwentydd.<br>Mannau chwarae â chyfarpar.<br>Cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy (ac eithrio cyfleusterau cynhyrchu ynni dŵr). |
| Datblygiad sy'n gydnaws â dŵr | Iardiau cychod, marinâu, gwaith hanfodol sy'n ofynnol mewn basnau angori.<br>Datblygiad sy'n gysylltiedig â chamlesi.<br>Amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith rheoli.<br>Mannau agored (ac eithrio mannau chwarae â chyfarpar).<br>Cyfleusterau cynhyrchu ynni dŵr adnewyddadwy. |

6.2 Mae datblygiad sydd dan fygythiad mawr yn disgrifio datblygiadau lle nad oes gan feddianwyr fawr o allu i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn y risgiau i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd, neu fawr o allu i reoli canlyniadau perygl o'r fath. Mae hefyd yn cynnwys y defnyddiau diwydiannol hynny lle byddai perygl cysylltiedig i'r cyhoedd a'r amgylchedd dŵr pe bai gorlif ar y safle. Mae angen i'r gwasanaethau brys a chanolfannau rheoli awdurdodau lleol fod yn weithredol ac yn hygyrch bob amser ac felly ystyrir eu bod hwy hefyd dan fygythiad mawr.[9]

6.3 Mae datblygiad sydd dan lai o fygythiad yn disgrifio datblygiad lle mae gan feddianwyr fwy o allu nag yn y categori datblygiadau sydd dan fygythiad mawr i benderfynu a yw risgiau a chanlyniadau'n dderbyniol.

6.4 Mae datblygiadau sy'n gydnaws â dŵr yn cynnwys datblygiadau y mae gofyn iddynt fod wedi'i lleoli ger dŵr oherwydd eu natur, a datblygiadau sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau llifogydd achlysurol. Nid oes angen iddynt fodloni'r prawf cyfiawnhau yn adran 10 ond bydd angen i unrhyw elfennau adeiledig o'r datblygiad a all gael eu meddiannu gan bobl fodloni'r prawf derbynioldeb canlyniadau fel y nodir yn adran 11 a dylid eu hasesu yn erbyn y meini prawf ar gyfer datblygiad sydd dan lai o fygythiad. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd mewn iardiau cychod ac ystafelloedd newid sy'n gysylltiedig â mannau agored, er enghraifft.

6.5 Nid yw'r rhestr yn Ffigur 2 yn un gynhwysfawr felly dylai'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau arfer crebwyll proffesiynol wrth ystyried categorïau datblygu nad ydynt yn cael eu rhestru'n benodol.

6.6 Efallai y bydd angen i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried hefyd a yw datblygiad arfaethedig yn cynnwys defnyddiau tir o fwy nag un categori o

[9] Mae'n bosib y bydd angen trin gorsafoedd gwylwyr y glannau – sydd o reidrwydd angen lleoliad ger y môr – yn wahanol. Bydd sicrhau ffordd ddiogel o gyrraedd a gadael bob amser yn hollbwysig.

ddatblygiad bygythiad. Yn achos datblygiadau mwy o faint, cynlluniau defnydd cymysg a chynlluniau sy'n cynnwys sawl adeilad, efallai na fydd un categori bygythiad yn briodol. Gall fod yn briodol ystyried bod rhai rhannau o ddatblygiad dan fygythiad mawr a bod rhannau eraill dan lai o fygythiad neu'n gydnaws â dŵr. Gall hyn roi rhywfaint o hyblygrwydd wrth ystyried y ffordd orau o ddefnyddio safleoedd y mae rhan ohonynt ym Mharth 1 a rhan ohonynt mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Gallai lleoli rhai mathau o nodweddion systemau draenio cynaliadwy a mannau agored mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd a defnyddio'r tir ar gyfer mesur lliniaru llifogydd priodol, er enghraifft, helpu i wneud y defnydd gorau o safle. Mae gwneud dŵr yn rhan annatod o ddatblygiad yn gallu gwella dyluniad a threfniant lleoedd.

6.7 Dylid ystyried pob datblygiad bach, gan gynnwys anheddau unigol, o dan un categori bygythiad. Er enghraifft, mae'n bwysig bod gerddi, llwybrau mynediad a thramwyfeydd annedd breswyl yn parhau i fod yn rhydd o lifogydd ac, felly, dylid ystyried bod holl ardal y datblygiad dan fygythiad mawr.

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Penderfynu faint o fygythiad sy'n wynebu mathau o ddefnydd tir – awdurdodau cynllunio

## 7. Llifogydd a'r system a arweinir gan gynllun

7.1 Mae cynlluniau datblygu'n gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson ac yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd am y math o ddatblygiad a fydd yn cael ei ganiatáu mewn lleoliad penodol.

**Cynlluniau Addasu a Gwydnwch Cymunedol**

7.2 Ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae rhai rhannau o'r Ardaloedd Twf, fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol, ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15, ond maent yn wynebu risgiau sylweddol o ran llifogydd gweddilliol. Mae llawer o rai eraill yn wynebu risgiau o afonydd a'r môr ac maent ym Mharth 2 neu Barth 3 ar hyn o bryd. Yn yr ardaloedd hyn, gellir cyfyngu ar ragolygon ar gyfer datblygu oni bai y gellir rhoi cynlluniau buddsoddi neu addasu cadarn ar waith. Lle mae awdurdodau lleol am hyrwyddo adfywiad strategol mewn ardaloedd mawr o drefi a dinasoedd arfordirol, rhaid iddynt ddatblygu a mabwysiadu Cynllun Addasu a Gwydnwch Cymunedol (CARP) sy'n amlinellu'n glir sut a phryd y maent yn bwriadu amddiffyn y lleoedd hyn rhag llifogydd. Dylai hyn gynnwys adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd a fyddai'n symud unrhyw dir o barthau 2 a 3 i barth amddiffynnol a'r gweithgareddau adfywio priodol a ganiateir o dan y fath amgylchiadau. Dylai CARPs hefyd nodi mesurau gwydnwch a fyddai'n cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd fel rhan o gynlluniau adfywio. Rhaid i'r gofynion ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd strategol a mesurau gwydnwch eraill a nodir mewn CARPs fod yn gydnaws â Cymru'r Dyfodol a'r CDLl, a'u cefnogi.

7.3 Bydd y seilwaith angenrheidiol a nodir mewn CARPs yn cael ei ariannu drwy gymysgedd o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Dylai awdurdodau lleol ystyried pob opsiwn ar gyfer eu hariannu, gan gynnwys defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol**.**

7.4 Rhaid i CARPs nodi a blaenoriaethu cyflwyno mesurau newydd yn raddol lle byddent yn cael yr effaith fwyaf a sicrhau bod gwarant y byddant yn cael eu hadeiladu i ddiogelu cynlluniau datblygu adfywio cyn meddiannu unrhyw ddatblygiad sydd dan fygythiad mawr o lifogydd. Bydd methu â nodi ac adeiladu piblinell o fesurau, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, drwy CARP yn atal gweithgareddau adfywio ac yn gadael cymunedau mewn perygl. Ni ddylai datblygiad sydd dan fygythiad mawr ym mharthau 2 a 3 gael ei gydsynio oni bai bod CARP cymeradwy ar waith**.**

7.5 Rhaid i CARPs hefyd ystyried a gwneud darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus ar unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd. Rhaid i amddiffynfeydd gael eu cynnal a chadw i safon uchel (fel y nodir yn Adran 5) er mwyn cael eu hystyried yn dderbyniol**.**

**Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd**

7.6 Rhaid cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASoGLl) fel modd i gasglu tystiolaeth i lywio polisïau a phrosesau dewis safleoedd ar gyfer yr holl Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Dylai helpu'r awdurdod(au) cynllunio i ystyried materion perygl llifogydd mewn ffordd sy'n gydnaws ag uchelgeisiau creu lleoedd. Dylai'r ASoGLl lywio dyheadau datblygu a nodi ffyrdd o leihau'r perygl o lifogydd ar gyfer cymunedau sy'n bodoli eisoes. Dylai ASoGLlau esblygu a datblygu yn ystod y broses creu cynllun wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael ac wrth i ragor o benderfyniadau gael eu gwneud am gynnwys y Cynllun Datblygu.

7.7 Nid yw ffynonellau ac achosion llifogydd yn gyfyngedig i ffiniau awdurdodau lleol ac, felly, bydd ASoGLl sy'n cwmpasu dalgylchoedd afon yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r dull hwn hefyd yn darparu rhagor o opsiynau a mwy o hyblygrwydd ar gyfer ymateb yn briodol ac yn gynaliadwy i ganfyddiadau'r ASoGLl.

7.8 Bydd ASoGLlau yn darparu gwybodaeth ar gyfer awdurdodau cynllunio am berygl llifogydd yn awr ac yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael am y newid yn yr hinsawdd a newidiadau rhagamcanol i natur perygl llifogydd. Dylent gynnwys ystyried pob ffynhonnell llifogydd, gan gynnwys peryglon sy'n gysylltiedig ag afonydd a'r môr, erydu arfordirol, dŵr daear, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear. Mae'n bwysig bod ASoGLlau yn cynnwys ac yn ystyried tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys mapiau a modelau, Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Datganiadau Ardal.

7.9 Dylai ASoGLlau ddangos yn gynnar yn y broses yr ardaloedd hynny lle y byddai datblygu'n groes i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Gall ASoGLlau hefyd nodi'r angen i gynnwys dulliau lleol-benodol mewn cynlluniau datblygu. Gall y rhain ymwneud â'r wybodaeth am Ddigwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, cofnodion lleol o lifogydd dŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin neu erydu arfordirol, neu ardaloedd lle y disgwylir i'r peryglon gynyddu oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Dylai'r ASoGLl geisio diogelu tir a buddiannau a allai fod eu hangen yn y dyfodol er mwyn lleihau'r perygl llifogydd i gymunedau sy'n bodoli eisoes. Dylai'r ASoGLl archwilio pa fesurau addasu y gallai fod eu hangen yn y dyfodol i fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd. Dylai'r polisïau a'r dystiolaeth o Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR) SMP a CNC wneud cyfraniad allweddol at hyn.

7.10 Dylai Cynlluniau Datblygu fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o allu'r gwasanaethau brys i ymateb i lifogydd ac, felly, dylid ceisio barn rhanddeiliaid allweddol megis timau Cynllunio at argyfwng a'r gwasanaethau brys ar y cam hwn. Lle mae gan gynllunwyr at Argyfwng a gwasanaethau brys farn gref ynglŷn â darparu a lleoli trefniadau mynd i mewn ac allan, dylai'r Cynllun Datblygu

gyfleu’r gofynion hyn i ddarpar ddatblygwyr. Dylai eu cynnwys yn gynnar leihau’r angen i wasanaethau brys wneud sylwadau ar faterion rheoli datblygu rheolaidd hefyd.

7.11 Dylai ASoGLlau gynnwys ystyried cyfleoedd i arafu a storio dŵr fel rhan o gynlluniau rheoli llifogydd a dŵr naturiol, gan fod rheoli tir yn briodol yn gallu helpu i leihau perygl llifogydd. Mae nodi ardaloedd lle y gellir arafu neu storio dŵr, naill ai'n barhaol neu dros dro yn ystod glaw trwm, yn arbennig o bwysig o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae Cymru yn eu hwynebu. Gall opsiynau megis gwaith adlinio'r arfordir a reolir ac adfer gorlifdiroedd gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lliniaru perygl llifogydd yn y dyfodol a gwella treftadaeth naturiol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle na ellir cynnal datblygu presennol yn wyneb perygl llifogydd cynyddol, neu mewn ardaloedd a ddatblygwyd mewn modd gwasgaredig lle mae hyn yn cynnig ateb mwy costeffeithiol a chynaliadwy nag adeiladu amddiffynfeydd newydd. Dylai cynigion fod wedi’u nodi’n glir yn y Cynllun Datblygu.

**Polisïau mewn Cynlluniau Datblygu**

7.12 Ni ddylai polisïau ar berygl llifogydd ailadrodd polisi cenedlaethol, ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar ofynion sy’n benodol yn lleol ar sail yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.

7.13 Yn yr un modd, dylai polisïau ar ddatblygu arfordirol fod yn benodol i nodweddion y morlin yn ardal y cynllun. Gall polisïau nodi mathau o ddatblygiadau a all fod yn dderbyniol yn ogystal â mathau na fyddant yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd arfordirol. Dylid adlewyrchu uchelgais polisïau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn glir. Mae adran 9 yn rhoi rhagor o fanylion am gynllunio ar gyfer datblygu mewn lleoliadau arfordirol.

**Y broses dewis safleoedd**

7.14 Dylid dewis safleoedd er mwyn cefnogi uchelgeisiau cyffredinol y Cynllun Datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio flaenoriaethu datblygu ym Mharth 1. Gall safleoedd hefyd gael eu dyrannu ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad ar dir llwyd ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15, neu mewn ardaloedd a fyddai'n elwa ar fesurau lliniaru llifogydd sy'n galluogi'r safle i fodloni meini prawf y Parth Amddiffynnol fel y nodir mewn Cynlluniau Addasu a Gwydnwch Cymunedol. Nid yw datblygiad ar dir maes glas mewn Parthau Amddiffynnol yn briodol oni bai y gellir dangos ei fod yn hanfodol i fywiogrwydd yn y dyfodol, na fydd yn effeithio'n andwyol ar brosesau lliniaru llifogydd a'i fod yn cydymffurfio ag egwyddorion creu lleoedd.

7.15 Ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr), gellir gwneud dyraniadau ar gyfer datblygiadau sy'n gweithredu, yn llwyr neu'n rhannol, strategaeth i adfywio neu adfywiogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes neu gyflawni amcanion economaidd neu

amgylcheddol allweddol. Gellir dyrannu tir ym Mharth 2 hefyd ar gyfer datblygiadau sy'n diwallu anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd neu sydd eu hangen i ddiogelu a hybu iechyd y cyhoedd. Dylai dyraniadau ar dir maes glas fod o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, lle na ellir lleoli'r datblygiad yn rhesymol ym Mharth 1 neu ar dir llwyd yn rhywle arall. Gall datblygiadau y mae'n rhaid eu lleoli mewn lleoliadau penodol gynnwys seilwaith pwysig megis gorsafoedd rheilffordd neu gyfleusterau ar y tir sy'n gysylltiedig â datblygiadau ar y môr. Ni ddylai seilwaith pwysig o'r math hwn gael ei ategu gan ddatblygiadau ategol neu anhanfodol ar dir maes glas mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

7.16 Ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr), ni ddylai dyraniadau ar gyfer datblygiadau preswyl newydd a mathau eraill o ddatblygiadau sydd dan fygythiad mawr gael eu gwneud gan nad yw peryglon a chanlyniadau llifogydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai dyraniadau ar gyfer datblygiadau newydd sydd dan lai o fygythiad, gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau hanfodol, gael eu gwneud. Gallai amgylchiadau eithriadol gynnwys diwallu anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd neu resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Fel ym mharth 2, dylai dyraniadau ar dir maes glas fod o dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

7.17 Wrth gynnig unrhyw ddyraniad mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd dylai'r awdurdod cynllunio gasglu digon o dystiolaeth gefndir i fod yn weddol hyderus y gall y datblygiad fodloni gofynion adran 11. Dylai'r awdurdod cynllunio ofyn am y wybodaeth hon pan gyflwynir safleoedd gan berchenogion tir neu ddatblygwyr a bydd angen iddo gynnal neu gomisiynu asesiad o berygl llifogydd a chanlyniadau llifogydd ar gyfer y safleoedd hynny y mae'n eu cyflwyno ei hun er mwyn bod yn siŵr y gellir eu rheoli mewn ffordd effeithiol a derbyniol. Gall y wybodaeth hon ddod i'r amlwg drwy'r ASoGLl neu drwy asesiad pwrpasol a bydd yn darparu'r sail i Asesiad manylach o Ganlyniadau Llifogydd gan y datblygwr yn ddiweddarach. Dylai'r awdurdod cynllunio ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol ac Awdurdodau Rheoli Risg er mwyn iddynt ei gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

7.18 Dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ar asesu senarios methu a rhwystro ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd a strwythurau a allai ddylanwadu ar lifogydd yn lleol. Pan fo angen asesiad pan fo amddiffynfa wedi methu neu strwythur wedi'i rwystro, dylid ystyried hyn fel y 'digwyddiad dylunio'. Dylai awdurdodau cynllunio a CNC ystyried yr wybodaeth hon i nodi unrhyw feysydd lle mae'r risg y gallai amddiffynfeydd gael eu gorlifo neu fethu, neu strwythurau gael eu rhwystro, yn ddigon difrifol fel ei bod yn gwneud datblygiad yn amhriodol. Os nodir unrhyw ardaloedd o'r fath, dylid eu nodi yn y cynllun datblygu. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn briodol cynnwys polisi yn y

cynllun datblygu sy'n ceisio buddsoddiad yn yr amddiffynfa rhag llifogydd neu strwythur y sianel a fyddai'n lleihau'r risg o fethu neu rwystro.

7.19 Os ystyrir bod canlyniadau datblygiad a ddyrennir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn dderbyniol yn unol ag adran 11, dylid nodi naill ai yn y Cynllun Datblygu neu ar y map cynigion fod llifogydd posibl yn gyfyngiad ar y safle unigol. Dylai unrhyw ofynion sy'n ymwneud â llifogydd ar gyfer datblygu’r safle hwnnw gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu. Bydd hyn yn cynnwys nodi'n glir y bydd angen i ddatblygwr, wrth fwrw ymlaen â’r dyraniad hwnnw, gynnal asesiadau technegol manwl cyn cyflwyno cais cynllunio.

7.20 Dylai’r awdurdod cynllunio fodloni ei hun y bydd unrhyw ddatblygiad y mae’n ei ddyrannu yn gallu gwrthsefyll llifogydd drwy gydol ei oes. Gan ddefnyddio’r amcanestyniadau cenedlaethol diweddaraf o ran y newid yn yr hinsawdd, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod anheddau newydd yn lleoedd diogel i fyw ynddynt yn awr ac yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae’n briodol ystyried bod cartrefi newydd yn para 100 mlynedd. Bydd oes mathau eraill o ddatblygiad yn amrywio ond ystyrir bod 75 mlynedd yn amcangyfrif rhesymol. Dylai awdurdodau cynllunio gymhwyso’r egwyddor hon mewn modd rhagofalus ar gyfer pob math o ddatblygiad.

7.21 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys senarios newid hinsawdd 100 mlynedd. Lle bydd datblygiadau newydd ag oes fyrrach, mae'n rhesymol bod yr asesiad o ganlyniadau llifogydd yn canolbwyntio ar risgiau posibl yn ystod oes ddisgwyliedig y datblygiad. Os rhoddir caniatâd cynllunio, dylid gosod amod cynllunio i atal defnydd wedi oes ddisgwyliedig yr adeilad.

7.22 Rhaid i unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau arfordirol gael eu gwneud yn unol â'r cyngor yn adran 9. Dylai'r awdurdod cynllunio fodloni ei hun bod y datblygiad yn bodloni gofynion adran 10 ac adran 11 hefyd.

**Adfywio ac adnewyddu trefol**

7.23 Oherwydd daearyddiaeth a hanes diwydiannol Cymru, mae nifer sylweddol o gymunedau trefol mawr mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Mae llawer o'r rhain wedi'u cydnabod fel Ardaloedd Twf Cenedlaethol neu Ranbarthol yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040. Dylid cynorthwyo cymunedau mewn ardaloedd o’r fath i barhau i allu gwrthsefyll llifogydd a bod yn hyfyw ac yn ffyniannus, ac mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi ymrwymiad polisi y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau rheoli perygl llifogydd mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae rhai rhannau o'r Ardaloedd Twf ym Mharth Amddiffynnol TAN 15 ond mae llawer yn wynebu perygl llifogydd o afonydd a'r môr ac maent ym Mharth 2 neu Barth 3 ar hyn o bryd. Felly, prin fydd y cyfleoedd i ddatblygu, oni ellir sicrhau buddsoddiad mewn gwell amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith rheoli er

budd y cymunedau sy'n bodoli eisoes a dangos bod y buddsoddiad hwnnw'n bodloni meini prawf Parthau Amddiffynnol TAN 15.

7.24 Fel y nodir yn Adran 2, diben y TAN hwn yw sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd. Cydnabyddir y gall mentrau i leihau perygl llifogydd a gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd fod yn gatalydd i adfywio. Mae angen i unrhyw adfywio strategol gael ei gefnogi gan Gynllun Addasu a Gwydnwch Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu, fel y nodir yn gynharach yn yr adran hon.

Seilwaith Hanfodol

7.25 Rhaid i'r system gynllunio wneud darpariaeth ar gyfer cynigion, a gallu ymdrin â chynigion, ar gyfer seilwaith newydd sy'n hanfodol i fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd, neu sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd parhaus, neu'r ddau. Rhaid i gynigion ar gyfer seilwaith hanfodol newydd fodloni'r profion cyfiawnhad yn adran 10 a rhaid iddynt ddangos yn glir pam mae unrhyw leoliad ym mharth 3 yn hanfodol a pham na fyddai'n rhesymol ei leoli mewn lleoliadau sydd dan lai o fygythiad. Awdurdodau cynllunio lleol fydd yn penderfynu a yw cynigion yn gyfystyr â seilwaith hanfodol, ond gallai'r rhesymau gynnwys.

Seilwaith trafnidiaeth carbon isel hanfodol sy'n gorfod croesi ardal risg uchel
Seilwaith cyfleustodau hanfodol y mae'n rhaid ei leoli mewn ardal perygl llifogydd am resymau gweithredol, gan gynnwys seilwaith ar gyfer cyflenwi trydan, gan gynnwys systemau cynhyrchu, storio a dosbarthu; gan gynnwys gorsafoedd pŵer sy'n cynhyrchu trydan, cyfleusterau storio grid ac is-orsafoedd; a gwaith trin dŵr sydd angen parhau i fod yn weithredol adeg llifogydd.
Cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd ag angen lleoliad priodol.

**Systemau Draenio**

7.26 Mae systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn ofynnol ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd ac fe'u hyrwyddir ym mhob achos fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli dŵr wyneb mewn ffordd gynaliadwy. Dylai Cynlluniau Datblygu annog datblygwyr i reoli dŵr wyneb mor agos â phosibl at ei darddiad yn achos pob datblygiad. Ynghyd ag ystyriaethau eraill o ran llifogydd, dylid ystyried draenio cyn gynted ag y bo modd yn y broses dewis safleoedd, oherwydd y bydd rheoli dŵr yn dylanwadu ar faterion allweddol megis cynllun a dwysedd y datblygiad. Dylai gwybodaeth a ddelir gan yr awdurdod lleol a allai helpu datblygwyr i lunio ceisiadau cynllunio i'w cyflwyno yn y dyfodol, gael ei chyhoeddi yn ei Gynllun Datblygu neu ochr yn ochr ag ef, fel canllawiau cynllunio atodol o bosibl.

**Cronfeydd dŵr**

7.27 Caiff cronfeydd dŵr yng Nghymru eu categoreiddio yn ôl y risg y maent ei beri i'r cyhoedd a'r amgylchedd os bydd y gronfa'n methu, sy'n annhebygol o

ddigwydd. Mae maint y datblygiad yn y dalgylch gorlifo yn ffactor pwysig wrth bennu categori risg cronfa ddŵr.

7.28 Gall cynllunio defnydd tir arwain yn anfwriadol at ailddosbarthu risg os yw datblygiad newydd wedi'i leoli yn ardal orlifo cronfa ddŵr. Bydd goblygiadau cynnal a chadw ac yswiriant ychwanegol i berchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr. Dylid ymgynghori â mapiau gorlifo'r gronfa ddŵr ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Dylai'r awdurdodau cynllunio godi unrhyw oblygiadau posibl i berchnogion neu weithredwyr cronfeydd dŵr, megis dyrannu datblygiad mewn ardaloedd gorlifo, yn agored ac yn adeiladol.

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Paratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASoGLlau) – Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau cynllunio

Rhoi cyngor ar baratoi ASoGLlau – Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol

Mewnbwn arbenigol – Awdurdodau Rheoli Risg, adrannau Cynllunio at Argyfwng, Corff Cymeradwyo SDCau, fforymau lleol Cymru gydnerth, y gwasanaethau brys, y diwydiant yswiriant a Grwpiau Arfordirol

## 8. Perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin

8.1 Nid dim ond ar orlifdiroedd y ceir llifogydd, gan fod glaw trwm ar dir sydd dan ddŵr neu arwynebau anhydraidd yn gallu achosi llifogydd lleol hefyd. Gall glaw trwm achosi i systemau draenio a chyrsiau dŵr cyffredin,[10] megis nentydd, ffosydd ac afonigau orlifo'n sydyn ac achosi llifogydd lleol. Wrth i'r hinsawdd newid, bydd y math hwn o lifogydd yn dod yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol.

8.2 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys dau barth perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae Parth 3 yn cynnwys ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf ac mae ardaloedd Parth 2 yn wynebu llai o berygl. Mae ardaloedd yr ystyrir nad ydynt yn wynebu perygl llifogydd o'r ffynonellau hyn ym Mharth 1. Nodir y diffiniadau llawn o'r parthau hyn yn Ffigur 2.

8.3 Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn rhoi ystyriaeth lawn i berygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin. Dylai perygl llifogydd gael ei ystyried wrth baratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASoGLlau) ar gyfer Cynlluniau Datblygu (gweler adran 7) ac wrth gynnal Asesiadau manwl o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer ceisiadau cynllunio (gweler Adran 12). Dylai awdurdodau cynllunio hefyd ystyried, ar sail yr ASoGLl, a oes angen polisïau cynllunio lleol penodol er mwyn rheoli perygl llifogydd ar gyfer cymunedau sy'n bodoli eisoes ac mewn perthynas â datblygiadau newydd.

8.4 Bydd deall natur y perygl o lifogydd yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu a yw polisi lleol yn briodol. Lle mae llifogydd o ddŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin yn digwydd yn gyflym, heb fawr ddim rhybudd neu i ddyfnder mawr, byddai'n briodol cyfyngu ar ddatblygiadau newydd. Mewn ardaloedd lle y gellir rhagweld perygl llifogydd yn well ac mae llifogydd yn fas, gellir dod i'r casgliad y gellir rheoli perygl llifogydd mewn ffordd dderbyniol ar gyfer datblygiadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd. Os deuir i'r casgliad y gellir rheoli neu liniaru perygl llifogydd o ddŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin, ni ddylai'r mesurau hyn gynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill.

8.5 Ni ddylai mesurau rheoli a lliniaru perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin gynnwys adeiladu dros gyrsiau dŵr cyffredin. Mae gan gyrsiau dŵr cyffredin swyddogaeth bwysig fel systemau draenio ac maent yn cynnig manteision sylweddol o ran amwynder a bioamrywiaeth. Efallai y bydd angen strwythurau megis pontydd ond ni ddylid sianelu cyrsiau dŵr i mewn i gwlfertau o dan gartrefi newydd. Dylid eu hystyried yn gaffaeliad naturiol i'r safle datblygu

[10] Defnyddir y termau 'cyrsiau dŵr cyffredin' a 'chyrsiau dŵr bach' yn y ddogfen hon, gyda bwriadau penodol. 'Cyrsiau dŵr cyffredin' yw'r term a ddefnyddir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac mae'n cyfeirio at gyrsiau dŵr sy'n llai na 'phrif afonydd'. Mae'r term 'cyrsiau dŵr bach' yn ymwneud yn benodol ag enwau parthau llifogydd yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r Map yn gwahaniaethu rhwng afonydd a chyrsiau dŵr eraill ar sail maint dalgylch (uwchlaw ac islaw 3km²), nid ar sail statws y cwrs dŵr na'r diffiniad ohono. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau dŵr bach, ond nid pob un, yn gyrsiau dŵr cyffredin hefyd (ac fel arall).

a’u hintegreiddio â nodweddion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) o'r cychwyn cyntaf lle y bo’n briodol.

8.6 Yn ystod llifogydd, bydd dŵr dros ben yn llifo'n naturiol i lawr y rhiw a chaiff ei ddargyfeirio gan rwystrau sefydlog megis adeiladau. Yn ystod llifogydd bas, bydd newidiadau bach yn lefelau arwynebau megis palmentydd yn effeithio ar lif dŵr a gall gronni hyd yn oed mewn pantiau bach iawn yn y dirwedd. Pan gaiff safle ei ddatblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, neu'n agos at berygl llifogydd, gallai newid llif disgwyliedig dŵr yn ystod llifogydd. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio yn cael asesiad clir o'r ffordd y bydd datblygiad yn effeithio ar berygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin.

8.7 Bydd angen cynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad newydd sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol ym Mharthau Llifogydd 2 a 3 – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach. Dylai asesiad hefyd gael ei gynnal ar gyfer datblygiadau ar safleoedd sydd y tu allan i'r parthau hyn ond a allai effeithio ar gwrs dŵr wyneb a/neu ddŵr dros ben o gyrsiau dŵr cyffredin. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio yn rhoi cyngor lleol penodol ar y mater hwn mewn Cynlluniau Datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad gerllaw Parthau Llifogydd 2 a 3 ar gyfer Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach wedi'i leoli'n ôl yn briodol er mwyn darparu ar gyfer llifogydd eithafol.

8.8 Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlAau) sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin. Mae gan yr ALlLlA rôl bwysig i'w chwarae o ran rhoi cyngor ar berygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin ar gyfer ei ardal ac mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio geisio barn yr ALlLlA ar sut i ymgorffori canfyddiadau ei Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd o berygl llifogydd ym mholisïau ei Gynllun Datblygu. Dylai hefyd geisio barn yr ALlLlA ar geisiadau cynllunio lle y gallai perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin fod yn rheswm dros eu gwrthod neu lle y cynigir y dylid rheoli neu liniaru perygl llifogydd.

**Systemau draenio cynaliadwy**

8.9 Mae datblygiadau adeiledig yn tueddu i gynyddu arwynebedd tir anhydraidd, gan leihau trylifiad a golygu bod mwy o ddŵr ffo yn llifo’n gyflym oddi ar wyneb y tir. Effaith hyn yw lleihau’r amser a gymer i ddŵr glaw fynd i mewn i’r cwrs dŵr ac mae hynny wedyn yn golygu bod mwy o ddŵr yn cael ei ryddhau pan fo’r llif ar ei anterth. Os na chaiff ei reoli’n briodol, gall dŵr ffo o ddatblygiadau achosi llifogydd mewn lleoliadau eraill a gall arwain at newid mawr o ran amlder a maint y llifogydd ymhellach i lawr y dalgylch.

8.10 Mae gan SDCau rôl bwysig o ran rheoli dŵr ffo o safle a rhaid eu cynnwys yn y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd. O’u hystyried a’u hintegreiddio’n ddigon cynnar, gallant esgor ar nifer o fanteision o ran creu lleoedd ac o ran datblygu

cynaliadwy. O fewn yr awdurdod lleol, y Corff Cymeradwyo SDCau sy'n gyfrifol am sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio mewn datblygiadau newydd. Mae'r broses o gymeradwyo systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd gan y Corff Cymeradwyo SDCau yn annibynnol ar y broses gynllunio. Mae’n ofynnol i ddatblygiadau newydd â mwy nag un annedd neu lle mae arwynebedd y gwaith adeiladu yn 100m² metr neu’n fwy, gael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau cyn y gall unrhyw waith adeiladu ddechrau. Dylai'r CCS gytuno ar drefniadau mabwysiadu a rheoli, gan gynnwys mecanwaith ariannu i gynnal a chadw seilwaith SDC a’r holl elfennau draenio fel rhan o’r gymeradwyaeth honno. Bydd hyn yn sicrhau bod y seilwaith SDC yn cael ei gynnal a’i gadw’n briodol a’i fod yn gweithredu’n effeithiol drwy gydol ei oes ddylunio.

8.11 Mae SDCau yn rheoli dŵr glaw mewn ffordd debyg i brosesau naturiol, gan ddefnyddio’r dirwedd a llystyfiant i reoli llif a maint y dŵr wyneb. Maent yn cynnig amrywiaeth o atebion peirianyddol y gellir eu rhoi ar waith i reoli dŵr ffo, gan gydnabod bod gwahaniaethau yn strwythur y pridd, lefelau trwythiad a chyfraddau hidlo ledled Cymru. Mae’r Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer SDCau[11] yn nodi amryw ddulliau cymeradwy o reoli dŵr wyneb; bydd angen i ddatblygwyr ddylunio ac adeiladu SDCau yn unol â’r Safonau er mwyn sicrhau cymeradwyaeth gan y CCS.

**Datganiad ar Ddraenio**

8.12 Gan fod y broses cymeradwyo SDCau yn annibynnol ar y broses gynllunio, mae risg y bydd cynigion yn cydymffurfio ag un system reoleiddio ond nid y llall. Lle y bo'n bosib, dylid osgoi sefyllfa lle mae cynllun yn cael caniatâd cynllunio ond lle mae'r Corff Cymeradwyo SDCau yn gwrthod cymeradwyo'r system ddraenio. Er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, mae'n bwysig ystyried gofynion cynllunio a gofynion y Corff Cymeradwyo SDCau ar y cyd a rhoi'r wybodaeth i'r penderfynwyr ochr yn ochr â'i gilydd. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy wneud cais am y ddau fath o ganiatâd ar yr un pryd, gan sicrhau bod dogfennaeth y cais cynllunio yn rhoi manylion llawn y system ddraenio gynaliadwy arfaethedig.

8.13 Mae'n well cyflwyno ceisiadau ar y cyd ond nid yw'n bosibl gwneud hynny bob amser. Pan geisir caniatâd cynllunio cyn cael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau, disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu Datganiad ar Ddraenio fel rhan o'r cais cynllunio. Dylai'r Datganiad ar Ddraenio nodi sut y bwriedir integreiddio systemau draenio cynaliadwy yn y cynllun, er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod cynllunio fod y cynllun yn ymgorffori systemau draenio cynaliadwy yn briodol a'i fod yn debygol, felly, o gael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau. Ni ddylai'r datganiad olygu cost nac ymdrech ychwanegol i'r ymgeisydd

---

[11] Cyhoeddir safonau cenedlaethol SDCau yma: https://llyw.cymru/safonau-cenedlaethol-ar-gyfer-systemau-draenio-cynaliadwy-suds

gan y bydd y wybodaeth a geir ynddo yn ofynnol ar gyfer proses ddilynol y Corff Cymeradwyo SDCau.

8.14 Mae Ffigur 3 yn nodi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys fel rhan o Ddatganiad ar Ddraenio a gyflwynir i'r awdurdod cynllunio.

**Ffigur 3 – Gofynion ar gyfer Datganiad ar Ddraenio**

| | |
|---|---|
| 1. Manylion lleoliad y safle a'r trefniadau draenio presennol. | *Dylai'r Datganiad ar Ddraenio gynnwys disgrifiad o'r trefniadau draenio presennol ar gyfer y safle ac unrhyw dir cyfagos sy'n draenio i'r safle, ynghyd â manylion yr ardal hydraidd bresennol ac arfaethedig (mewn $m^2$).* |
| 2. Manylion am y ffordd y bwriedir rheoli a gollwng dŵr wyneb, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau presennol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy. | *Dylai'r Datganiad ar Ddraenio gynnwys disgrifiad ynghylch a yw ymdreiddio'n bosibl ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Dylid hefyd nodi pa rai o'r dulliau gollwng isod a fyddai'n cael eu defnyddio yn unol â Safonau Cenedlaethol Systemau Draenio Cynaliadwy Rhestrir y rhain yn nhrefn blaenoriaeth a dylid nodi'r rhesymau dros beidio â defnyddio unrhyw ddulliau â blaenoriaeth uwch.*<br>- *1. Cesglir dŵr wyneb ffo i'w ddefnyddio*<br>- *2. Mae dŵr wyneb ffo yn ymdreiddio i'r ddaear*<br>- *3. Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i gorff dŵr wyneb h.y. cwrs dŵr*<br>- *4. Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i garthffos dŵr wyneb, draen priffordd neu system ddraenio arall*<br>- *5. Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i garthffos gyfun*<br><br>*Dylai'r Datganiad ar Ddraenio gynnwys manylion am y broses ymgynghori a'r ffordd y cafwyd caniatadau perthnasol ar gyfer y lleoliad gollwng ynghyd â chynllun/map bras yn nodi ei leoliad fel rhan o'r cynnig.* |

| | |
|---|---|
| 3. Gwybodaeth am y systemau draenio cynaliadwy arfaethedig a fydd yn ffurfio rhan o'r system draenio dŵr wyneb a rhyw syniad o'r gyfundrefn cynnal a chadw arfaethedig yn y dyfodol. | *Dylai'r Datganiad ar Ddraenio gynnwys disgrifiad o nodweddion y systemau draenio cynaliadwy a manylion am y ffordd y cânt eu hymgorffori yn y cynnig cyffredinol. Gellid darparu rhagor o fanylion fel rhan o frasgynllun atodol.*<br><br>*Dylai manylion am y gyfundrefn cynnal a chadw arfaethedig yn y dyfodol nodi a fydd yn ofynnol i'r system draenio dŵr wyneb, neu elfennau ohoni, gael ei mabwysiadu (eu mabwysiadu) gan y Corff Cymeradwyo SDCau.*[12] |

8.15 Dylai'r awdurdod cynllunio rannu'r Datganiad ar Ddraenio â'r Corff Cymeradwyo SDCau, gan roi amser i'r Corff Cymeradwyo SDCau roi adborth cyn y penderfynir ar y cais cynllunio ar yr egwyddorion cyffredinol a fydd yn cael eu mabwysiadu/ymgorffori mewn datblygiadau newydd i roi hyder y gall proses gymeradwyo SAB gael ei rhoi ar waith yn hyderus. Gall yr awdurdod cynllunio a'r Corff Cymeradwyo SDCau benderfynu bod y trefniadau draenio a nodir yn y Datganiad ar Ddraenio yn gadarn, eu bod yn sylfaenol ddiffygiol neu fod angen gwneud mân ddiwygiadau iddynt. Mae Datganiadau ar Ddraenio annigonol a threfniadau draenio diffygiol yn rhesymau i awdurdod cynllunio wrthod y cais cynllunio. Os bydd yr awdurdod cynllunio a'r Corff Cymeradwyo SDCau yn fodlon ar y Datganiad ar Ddraenio, gall yr ymgeisydd ymgymryd â phroses gymeradwyo'r Corff Cymeradwyo SDCau yn hyderus.

8.16 Os bydd y Datganiad ar Ddraenio a'r trefniadau arfaethedig yn dderbyniol, ar y cyfan, ond yr awgrymir mân ddiwygiadau, dylid rhoi adborth i'r ymgeisydd drwy nodyn y gellir ei ddefnyddio i lywio'r cais dilynol am gymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau. Mân ddiwygiadau yn y cyd-destun hwn yw unrhyw newidiadau i drefniadau draenio nad ydynt yn gofyn am newid y cais cynllunio.

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Cyhoeddi mapiau sy’n dangos perygl llifogydd sy’n deillio o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin – Cyfoeth Naturiol Cymru

Asesu perygl llifogydd sy’n deillio o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin – yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (sy'n rhan o'r awdurdod lleol)

Asesu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd – y Corff Cymeradwyo SDCau (un o swyddogaethau'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol)

Cael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau - datblygwyr unrhyw gynllun sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu lle mae arwynebedd y gwaith adeiladu yn 100m² neu'n fwy

[12] Bydd yn ofynnol i system draenio dŵr wyneb sy'n gwasanaethu sawl eiddo gael ei mabwysiadu gan y Corff Cymeradwyo SDCau.

Paratoi Datganiad ar Ddraenio – ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd cynllunio cyn ceisio cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDCau


Ystyried y Datganiad ar Ddraenio – yr awdurdod cynllunio a'r Corff Cymeradwyo SDCau

## 9. Perygl arfordirol – erydu a llifogydd

9.1 Mae gan ardaloedd arfordirol nodweddion unigryw sy'n gallu cynnig cyfleoedd a chreu heriau wrth gynnig neu ystyried datblygiad newydd. Cyfyngir ar y cyfleoedd i ddatblygu gan risgiau fel llifogydd, erydiad ac ansefydlogrwydd tir. Gallai newid yn yr hinsawdd waethygu'r risgiau hyn ym mhob un o'n hardaloedd arfordirol. Dylai Awdurdodau Cynllunio ymgynghori â'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFAs), fel aelodau o grwpiau arfordirol ac arbenigwyr ar SMPs, i gael barn LLFAs ar sut i ystyried yr SMPs wrth baratoi eu Cynllun Datblygu. O ystyried sensitifrwydd lleoliadau arfordirol i newidiadau amgylcheddol a achosir gan brosesau naturiol ac ymyriadau dynol, mae'r system gynllunio'n cydnabod bod yr arfordir yn lle arbennig ac yn adnodd cyfyngedig. Felly rhaid ei reoli mewn ffordd ragweithiol a chynaliadwy.

9.2 Dylai awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol y gallai datblygu ar rannau o'r amgylchedd arfordirol sydd ar y tir gael effeithiau arfordirol ar y tir ac yn y môr. Dylai awdurdodau cynllunio gydweithio ag awdurdodau morol perthnasol i sicrhau bod effeithiau cynllunio defnydd tir o fudd i'r amgylchedd arfordirol ar y cyfan ac nad ydynt yn ei niweidio. Mae polisïau SOC 8 a SOC 9 yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru[13] yn arbennig yn ystyriaethau pwysig mewn amgylcheddau arfordirol. Dengys y diagram yn Ffigur 4 y ffordd y mae'r systemau cynllunio tirol a morol yn gorgyffwrdd mewn ardaloedd arfordirol.

**Ffigur 4 – Y Parth Arfordirol[14]**




[13] Cyhoeddir Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yma: https://llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen

[14] Nodir Terfyn Arferol y Llanw (NTL) ar fapiau Arolwg Ordnans a gall fod yn ystyriaeth i rai partïon. Gall fod gorgyffwrdd rhwng y math o ganiatadau sydd eu hangen (caniatâd cynllunio defnydd tir a thrwydded forol) a gall materion sy'n ymwneud ag afonydd llanw achosi problemau i'r tir a'r môr.

**Cynllunio Datblygu**

9.3 Dylai Cynlluniau Datblygu nodi pa rannau o'r arfordir a all gael eu datblygu, y dylid eu cynnal ar eu ffurf bresennol neu y dylid eu gadael i natur. Dylai'r dull o gynllunio'r arfordir gael ei lywio gan y Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru) a thystiolaeth. Mae'r Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Datganiadau Ardal yn darparu tystiolaeth gynhwysfawr i lywio'r strategaeth gynllunio ar gyfer ardaloedd arfordirol. Dylai Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd gynnwys asesiad o rôl a chyfanrwydd amddiffynfeydd arfordirol a darparu gwybodaeth fanwl am y peryglon sy'n deillio o lifogydd ac erydu arfordirol yn ardal y cynllun.

9.4 Dylai'r fframweithiau polisi hirdymor ar gyfer rheoli peryglon ac amddiffynfeydd arfordirol a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin gael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Datblygu. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu gynnwys cynigion sy'n gwrthdaro â Chynlluniau Rheoli Traethlin. Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddogfennau rhanbarthol a bydd y broses o'u rhoi ar waith yn effeithiol yn aml yn gofyn am gydweithredu ar draws ffiniau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Mae'n well mynd i'r afael â'r materion hynny drwy gynllunio strategol ar lefel ranbarthol neu gydweithio ffurfiol rhwng awdurdodau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y potensial ar gyfer effeithiau cronnol o gynigion datblygu ar yr arfordir. Gall cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio ar sail ranbarthol helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cyson a helpu i gyflawni strategaethau ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol, ac fe'u hanogir yn gryf i wneud hynny.

9.5 Gall polisïau cynllunio helpu awdurdodau cynllunio i ddangos ardaloedd ar yr arfordir y mae angen eu rheoli mewn ffyrdd penodol, gan gynnwys cynlluniau addasu arfordirol. Mae'n debygol y bydd angen polisïau i reoli neu gyfyngu ar ddatblygu ar dir arfordirol ansefydlog, mewn ardaloedd arfordirol isel ac ar dir yn agos at glogwyni sy'n erydu neu forlinau eraill sy'n erydu.

9.6 Dylai'r Cynllun Datblygu ddiffinio'n glir pa ardaloedd arfordirol sy'n cael eu hystyried yn addas i'w datblygu a hefyd yr ardaloedd hynny y mae cyfyngiadau sylweddol arnynt. Ni ddylid dyrannu safleoedd i'w datblygu lle ceir perygl o lifogydd neu berygl y bydd y tir yn ansefydlog oherwydd erydiad arfordirol dros oes y datblygiad. Lle mae awdurdod cynllunio'n dyrannu tir arfordirol i'w ddatblygu dylai sicrhau bod ganddo wybodaeth ddigonol a'i fod wedi ystyried yr holl gyngor technegol perthnasol. Dylai unrhyw ddatblygiad wella'r ymdeimlad arbennig o le yn yr ardal arfordirol honno.

9.7 Os caiff safleoedd eu cynnig gan ddatblygwyr mewn ardaloedd arfordirol yn ystod y broses o baratoi Cynllun Datblygu, bydd gofyn i'r datblygwr ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol i ddangos bod modd datblygu'r safleoedd arfaethedig yn ddiogel heb effeithiau niweidiol sylweddol.

9.8 Gallai canllawiau cynllunio atodol (CCA) ddarparu arweiniad manwl pellach ar berygl arfordirol lle mae gan awdurdod cynllunio strategaeth benodol fel rhan o'i ardal arfordirol, megis menter adfywio. Gellid defnyddio CCA yn yr achosion hyn i nodi sut y dylai prosiect adfywio gael ei ddylunio i gyflawni amcanion creu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r cynllun datblygu perthnasol.

**Rheoli Datblygu**

9.9 Wrth wneud penderfyniadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd arfordirol, dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn llawn a oes peryglon i'r datblygiad o ganlyniad i erydu arfordirol neu lifogydd. Mater i'r ymgeisydd fydd darparu tystiolaeth gyda'r cais fod modd datblygu'r safle arfaethedig heb berygl llifogydd nac erydu arfordirol yn ystod oes y datblygiad. Rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon ar gadernid y dystiolaeth cyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys ardaloedd a ddangosir ar y Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol fel rhai sy'n wynebu risg o erydu. Ni ddylid caniatáu datblygiadau yn yr ardaloedd hyn.

**Amddiffynfeydd arfordirol**

9.10 Efallai y bydd angen amddiffynfeydd arfordirol wedi'u huwchraddio neu wedi'u hatgyfnerthu mewn ardaloedd arfordirol lle mae dull 'cynnal y llinell' yn cael ei gymeradwyo yn y Cynllun Rheoli Traethlin a'i adlewyrchu yn y Cynllun Datblygu. Mae adeiladu amddiffynfeydd môr yn aml yn arwain at bwysau cynyddol i ddatblygu, ond dylai awdurdodau cynllunio gofio mai dim ond lleihau'r perygl y mae amddiffynfeydd yn ei wneud ac nad ydynt yn ei ddileu.

9.11 Pan gaiff amddiffynfeydd arfordirol eu huwchraddio neu eu hatgyfnerthu, gallant arwain at Barthau Amddiffynnol TAN 15 newydd, os byddant yn cynnig diogelwch o safon ddigonol (gweler adran 5). Yn yr ardaloedd hyn, dylai egwyddorion datblygu priodol a dyraniadau penodol er mwyn helpu i adfywio ac adnewyddu cymunedau sy'n bodoli eisoes, gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu. Ni ddylai datblygiadau sydd dan fygythiad mawr sy'n dibynnu ar yr amddiffynfeydd ddechrau cyn i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau a chyn i'r Parthau Amddiffynnol newydd gael eu sefydlu. Byddai angen i gynigion fodloni'r profion a nodir yn adrannau 10 ac 11. Dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol er mwyn sicrhau y caiff blaenoriaethau o ran cynllunio defnydd tir a strategaethau ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol eu cydgysylltu a'u bod yn cyd-fynd â'i gilydd.

**Gweithredoedd tonnau**

9.12 Gall tonnau eithafol sy'n torri dros dir yn ystod stormydd dwys ddigwydd mewn llawer o ardaloedd arfordirol adeiledig. Mae'r risgiau a achosir gan y digwyddiadau hyn, gan gynnwys difrod i eiddo o ddŵr y môr neu falurion, yn ychwanegol at y risg o lifogydd a ddangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r risg o donnau eithafol ac efallai yr hoffent ystyried mesurau i atal difrod.

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Paratoi Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru; gyda chymorth awdurdodau lleol

Paratoi Cynlluniau Rheoli Traethlin – Grwpiau Arfordirol; a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru; ac a ddefnyddir fel tystiolaeth allweddol ar gyfer polisïau arfordirol a phenderfyniadau gan awdurdodau cynllunio

Paratoi a mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Llywodraeth Cymru

Llunio a rheoli'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, gan gynnwys risg perygl llifogydd ac erydu arfordirol – Cyfoeth Naturiol Cymru

Llunio a rheoli'r Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol – Cyfoeth Naturiol Cymru

Darparu gwybodaeth am amddiffynfeydd arfordirol – Cyfoeth Naturiol Cymru (y Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol)

Rhanddeiliaid â chyfraniadau pwysig i'w gwneud i Gynlluniau Datblygu – Grwpiau Arfordirol, Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru

Polisïau cynllun datblygu ar faterion amgylcheddol – awdurdodau cynllunio

## 10. Cyfiawnhau datblygiad mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd

10.1 Amlygodd Adran 3 sut y daeth lleoliadau arfordirol a dyffrynnoedd afonydd yn ganolfannau poblogaeth a chyflogaeth ledled Cymru. Sefydlodd y penderfyniadau hanesyddol hyn batrymau anheddu sy'n rhoi cyd-destun i gynigion datblygu a phenderfyniadau cynllunio heddiw. Mae deall (i) natur cynigion datblygu gan ddefnyddio'r diffiniadau yn adran 4, a (ii) bygythiad llifogydd datblygiad gan ddefnyddio'r diffiniadau yn adran 6, yn hanfodol wrth asesu a oes modd cyfiawnhau datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

10.2 Mae'r cyngor yn yr adran hon yn benodol i ystyriaethau llifogydd o afonydd a'r môr. Bydd ystyriaethau cynllunio eraill yn berthnasol o dan yr holl amgylchiadau, gan gynnwys yr angen i gydymffurfio â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

**<u>Cyngor o ran natur datblygiad</u>**

**Datblygiad newydd**

10.3 Dylid ystyried cynlluniau i ddatblygu safleoedd maes glas a chynigion i ddatblygu safleoedd gwag neu safleoedd segur yn ddatblygiadau newydd at ddibenion y canllawiau hyn. Mae datblygiadau newydd yn cynyddu amlygiad pobl, eiddo a seilwaith i berygl llifogydd ac maent yn debygol o gael effaith andwyol ar gapasiti storio llifogydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac os ydynt yn bodloni'r meini prawf ym mharagraff 10.10 y dylid rhoi caniatâd ar gyfer cynigion ar gyfer datblygiad newydd ar dir heb ei amddiffyn.

**Ailddatblygu, newid defnydd ac addasiadau**

10.4 Lle mae adeiladau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gall cynigion ailddatblygu, newid defnydd neu addasu gyflwyno manteision amlwg i'r ardal a'r adeilad. Dylai'r rhain gael eu cydbwyso a'u pwyso yn erbyn yr ystyriaethau perygl llifogydd.

10.5 Mae cynlluniau ailddatblygu, at ddibenion y canllawiau hyn, yn cynnig codi adeilad (neu adeiladau) newydd yn lle adeilad â defnydd presennol. Dim ond ar dir a ddatblygwyd o'r blaen y mae'r math hwn o ddatblygiad yn digwydd. Bydd y defnyddiau presennol yn golygu bod amlygiad i risg yn barod ar y safleoedd hyn. Dylai cynlluniau ailddatblygu fod o raddfa debyg i'r defnydd presennol er mwyn osgoi cynyddu'r amlygiad i berygl llifogydd. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried ôl troed ac uchder yr adeilad a'i gapasiti wrth asesu a yw'r raddfa arfaethedig mewn cais cynllunio yn briodol. Rhaid i unrhyw ailddatblygiad arddangos dyluniad sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd; lle bo cynigion posibl ar gyfer ailddatblygu yn cynnwys defnydd preswyl, rhaid iddo geisio sicrhau nad yw defnyddiau o'r fath yn digwydd ar lefel y llawr daear.

10.6 Gellir cyfiawnhau ailddatblygiad sy'n arwain at ddatblygiad sydd dan lai o fygythiad mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Ar gyfer datblygiadau yn y categori dan fygythiad mawr, dylid defnyddio llawer mwy o bwyll. Dylai'r cynnig ddangos gallu clir i wrthsefyll perygl llifogydd.

10.7 Mae cynigion newid defnydd neu addasu yn ceisio newid sut mae adeilad yn cael ei ddefnyddio heb newid ei ymddangosiad neu ei ôl troed yn sylweddol. Mae cynigion a fyddai'n cyflwyno (neu'n dwysáu) datblygiad sydd dan fygythiad mawr mewn ardaloedd perygl llifogydd, a Pharth 3 (Afonydd a'r Môr) yn benodol, yn gofyn am waith craffu manwl a gofalus. Dylai'r perygl llifogydd i ddeiliaid posibl a'r eiddo gael ei asesu'n drylwyr a dim ond os gwelir bod yr ardal yn gallu gwrthsefyll llifogydd y dylid parhau â'r datblygiad.

10.8 Wrth asesu cynigion ailddatblygu, newid defnydd ac addasu mewn unrhyw ardal lle mae perygl llifogydd, rhaid i ddatblygwyr ymgymryd ag asesiad canlyniadau llifogydd sy'n gymesur â natur a graddfa'r cynnig. Cyn rhoi caniatâd cynllunio, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn fodlon bod modd cyfiawnhau'r cynllun ac yna cymhwyso'r profion adran 11 i fodloni eu hunain bod y canlyniadau llifogydd wedi'u hystyried a'u bod yn dderbyniol. Os nad ydynt yn fodlon, ni ddylai'r awdurdod cynllunio roi caniatâd cynllunio.

**Datblygiad sy'n gydnaws â dŵr**

10.9 Mae datblygiad sy'n gydnaws â dŵr yn dderbyniol, o safbwynt llifogydd, ym mhob parth llifogydd.

**<u>Cyngor mewn perthynas â'r ardaloedd perygl llifogydd</u>**

10.10 Os yw datblygiad yn cael ei gynnig mewn unrhyw ardal sy'n wynebu perygl llifogydd o afonydd a'r môr, bydd angen i'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon bod modd cyfiawnhau ei leoliad. Mae'n bwysig bod ardaloedd ym Mharth 3 yn cael eu defnyddio fel dewis olaf yn unig, ac nid o gwbl ar gyfer datblygiad newydd sydd dan fygythiad mawr. Caniateir mwy o hyblygrwydd ym Mharth 2 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15, lle mae seilwaith amddiffyn ffurfiol yn darparu safon dda o amddiffyniad rhag llifogydd.

**Parth 1**

Mae pob math o ddatblygu yn dderbyniol mewn egwyddor. Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau lleol-benodol ar gyfer ardaloedd lle ceir llifogydd ar raddfa leol.

**Parthau Amddiffynnol TAN 15**

Gellir cyfiawnhau datblygiad os bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae canlyniadau posibl llifogydd i'r math penodol o ddatblygiad wedi cael eu hystyried, a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn adran 11.

2. Mae Cynllun Addasu a Gwydnwch Cymunedol y cytunwyd arno ar waith sy'n cefnogi datblygiadau sy'n ffurfio rhan o gynllun adfywio strategol.

**Parth 2 (Afonydd a'r Môr)**

Gellir cyfiawnhau datblygiad ym Mharth 2 os bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Bydd yn cynorthwyo strategaeth a gefnogir gan y Cynllun Datblygu i adfywio anheddiad presennol neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol neu bydd yn rhan o strategaeth o'r fath; **A**
2. Mae ei leoliad yn ateb y diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol; **A**
3. Mae canlyniadau posibl llifogydd i'r math penodol o ddatblygiad wedi cael eu hystyried, a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol yn unol â’r meini prawf sydd wedi’u cynnwys yn adran 11.

**Parth 3 (Afonydd a'r Môr)**

**Nid yw datblygiadau newydd yn y categori dan fygythiad mawr yn dderbyniol ym Mharth 3 ac eithrio lle mae'r datblygiad yn bodloni’r meini prawf canlynol:**

- mae’n mynd i'r afael yn glir ac yn benodol ag achosion y newid yn yr hinsawdd ac na ellir ei leoli ar dir sydd dan lai o fygythiad, ac mae wedi'i ddylunio i'r safonau uchaf o ran gwrthsefyll llifogydd
- mae ar gyfer seilwaith cenedlaethol hanfodol na ellir ei leoli ar dir sydd dan lai o fygythiad ac mae wedi'i ddylunio i'r safonau uchaf o ran gwrthsefyll llifogydd

Gellir cyfiawnhau datblygiadau newydd yn y categori dan lai o fygythiad os bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod angen ei leoli ym Mharth 3, megis er mwyn sicrhau diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, diogelu iechyd y cyhoedd neu leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. **A**
2. Mae ei leoliad yn ateb y diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol; **A**
3. Mae canlyniadau posibl llifogydd i'r math penodol o ddatblygiad wedi cael eu hystyried, a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol yn unol â’r meini prawf sydd wedi’u cynnwys yn adran 11.

Gellir cyfiawnhau ailddatblygu, newid defnydd ac addasu os bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y math penodol o ddatblygiad wedi'u hystyried ac yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf a gynhwysir yn adran 11; **A**
2. Mae'r cynllun yn arwain at ddatblygiad sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd.

**Tir maes glas mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd**

10.11 Ym mhob ardal lle mae perygl llifogydd, dylid amddiffyn tir maes glas rhag ei ddatblygu. Mae tir maes glas yn darparu capasiti neu ofod pwysig i reoli neu arafu llif dŵr llifogydd. Ar ôl i dir gael ei ddatblygu, mae ganddo lai o allu i storio gormodedd o ddŵr, yn arbennig yn ystod llifogydd mawr. O dan rai amgylchiadau

cyfyngedig ac eithriadol, rhaid i ddatblygiadau seilwaith pwysig gael eu lleoli mewn lleoliad penodol ac ni ellir eu lleoli'n rhesymol mewn mannau eraill, naill ai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen neu ym Mharth 1. Rhaid i gynigion ddangos, a bodloni’r awdurdod cynllunio, pam mae lleoliad maes glas yn angenrheidiol, a pham na all lleoliadau amgen ar dir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir ym mharth 1 fod yn lleoliad rhesymol ac ymarferol ar gyfer y cynllun arfaethedig. Rhaid i ddatblygiadau newydd sy'n gofyn am leoliad maes glas fodloni'r meini prawf a gynhwysir yn adran 11 a chael eu dylunio er mwyn gallu gwrthsefyll llifogydd. Bydd cynnwys cynlluniau mewn cynllun datblygu mabwysiedig yn cryfhau'r cyfiawnhad dros eu lleoli ar dir maes glas.

## 11. Derbynioldeb canlyniadau llifogydd

11.1 Os bydd yr awdurdod cynllunio wedi bodloni ei hun bod datblygiad a gynigir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd wedi bodloni'r profion cymalog a nodir yn adran 10, y cyfiawnhad fydd gwybod y gallai'r datblygiadau hynny brofi llifogydd ac y bydd angen iddynt gael eu cynllunio'n briodol. Bydd angen dealltwriaeth lawn o'r peryglon a'r canlyniadau posibl er mwyn llywio penderfyniad yr awdurdod cynllunio a dangos bod y meini prawf yn adran 10 wedi cael eu bodloni. Cyn i'r awdurdod cynllunio benderfynu ar gais, rhaid cynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, sy'n briodol i natur a maint y datblygiad arfaethedig. Mae'n rhaid i'r asesiad roi digon o wybodaeth i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad allu ystyried goblygiadau llifogydd a'u cydbwyso ag ystyriaethau eraill.

11.2 Mae'r costau cyhoeddus a phreifat uchel sy'n gysylltiedig â llifogydd yn golygu bod yn rhaid bod yn ofalus wrth ystyried datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, gan gydnabod ansicrwydd y rhagolygon presennol. Mae'n bwysig bod yr ansicrwydd hwn yn cael ei ystyried yn llawn o fewn yr asesiad er mwyn sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

**Meini prawf derbynioldeb ar gyfer canlyniadau llifogydd**

11.3 Wrth ystyried a ddylai datblygiad fynd yn ei flaen ai peidio, bydd hynny'n dibynnu ar y gallu i reoli canlyniadau llifogydd yn ddiogel, gan gynnwys eu heffeithiau ar berygl llifogydd mewn ardal arall. Nid yw'n briodol caniatáu datblygiad (ac eithrio datblygiad sy'n gydnaws â dŵr) mewn ardaloedd lle mae llifogydd o ddyfnder, hyd neu gyflymder sylweddol yn bosibl neu lle na ellir sicrhau ffordd ddiogel i mewn ac allan.

11.4 Mae gofynion y mae'n rhaid iddynt fod ar waith ar gyfer unrhyw ddatblygiad y caniateir ei leoli mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. O dan yr holl amgylchiadau, dylai datblygwyr ac awdurdodau cynllunio sicrhau bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Dim cynnydd mewn llifogydd mewn mannau eraill
- Preswylwyr/meddianwyr yn ymwybodol o'r perygl llifogydd
- Llwybrau dianc/gwacáu yn bresennol
- Cynlluniau a gweithdrefnau argyfwng llifogydd wedi'u cytuno ac ar waith
- Dyluniad sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd
- Canlyniadau derbyniol ar gyfer y math o ddefnydd (gweler y canllawiau manwl isod)

11.5 Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gadarnhau a ellir ymgorffori mesurau osgoi a lliniaru addas, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â nodau creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru, o fewn dyluniad y safle i sicrhau bod datblygiad yn ddiogel a sicrhau hefyd:

- bod cyn lleied â phosibl o berygl i fywyd;
- y terfir cyn lleied â phosibl ar bobl sy’n byw ac yn gweithio yn yr ardal;
- bod cyn lleied â phosibl o ddifrod i eiddo;
- bod y datblygiad yn effeithio cyn lleied â phosibl ar berygl llifogydd yn gyffredinol;
- y terfir cyn lleied â phosibl ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

11.6 I lywio’u penderfyniad cynllunio, bydd angen i’r awdurdod cynllunio ffurfio barn ynglŷn â derbynioldeb canlyniadau llifogydd a chaniatáu datblygu dim ond lle mae’r datblygwr wedi dangos bod peryglon a chanlyniadau llifogydd yn rhai y gellir eu rheoli a'u bod yn bodloni’r meini prawf a nodir isod.

**Trothwyon amlder: dylunio datblygiad i fod yn rhydd o lifogydd**

11.7 Bydd y safon ddylunio ofynnol ar gyfer datblygiad newydd yn rhydd o lifogydd yn ystod llifogydd o afon 1% (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 100 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn) a llifogydd o'r môr 0.5% (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 200 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn), a lwfans ar gyfer y newid yn yr hinsawdd dros oes y datblygiad. Dylai canolfannau rheoli awdurdodau lleol a chanolfannau i’r gwasanaethau brys fod wedi’u dylunio i fod yn rhydd o lifogydd yn ystod unrhyw ddigwyddiad 0.1% (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 1000 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Lle y bo'n briodol, dylid cynnal asesiad yn erbyn senario torri a blocio yn erbyn cyfnodau dychwelyd o hyd at ac yn cynnwys y digwyddiad llifogydd 1 mewn 1000 o flynyddoedd, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd (gweler paragraff 12.6).

11.8 Mae canllawiau manwl ar lwfansau newid hinsawdd at ddibenion cynllunio yn cael eu cyhoeddi ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

11.9 Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r trothwyon amlder ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau ac fe’i disgrifir yn nhermau tebygolrwydd blynyddol o ddigwydd. Gellir defnyddio'r trothwyon gyda mwy o hyblygrwydd ar gyfer ailddatblygu, newid defnydd, addasiadau ac estyniadau, lle mae'r gallu i ailddylunio datblygiad yn sylweddol yn gyfyngedig. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r trothwyon yn ganllaw. Os na ellir eu bodloni'n rhesymol, dylai'r awdurdod cynllunio ofyn am farn yr awdurdodau rheoli risg perthnasol ar y mesurau gwydnwch a gynigir i'w helpu i ddod i benderfyniad.

**Ffigur 5** – Digwyddiadau llifogydd lle mae’n rhaid i ddatblygiad fod yn rhydd o lifogydd

| **Categorïau Bygythiad** | | **Math o ddigwyddiad llifogydd** | |
|---|---|---|---|
| | | **Afonydd** | **Y Môr** |
| Datblygiad sydd dan fygythiad mawr | Gwasanaethau brys (canolfannau rheoli a hybiau) | 0.1%+CC<br><br>(1 mewn 1,000) | 0.1%+CC<br><br>(1 mewn 1,000) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pob math arall | 1% +CC<br><br>(1 mewn 100) | 0.5%+CC<br><br>(1 mewn 200) |
| Datblygiad sydd dan lai o fygythiad<br><br>Datblygiad sy'n gydnaws â Dŵr (yn gyfyngedig i'r elfennau adeiledig hynny o ddatblygiadau a all gael eu meddiannu gan bobl) | | 1% +CC<br><br>(1 mewn 100) | 0.5% +CC<br><br>(1 mewn 200) |

**Amodau y gellir eu goddef: rheoli canlyniadau mewn digwyddiad llifogydd eithafol**

11.10 Mae’r trothwyon o ran bod yn rhydd o lifogydd a nodir uchod yn ymwneud â digwyddiadau llifogydd difrifol iawn ond nid y rhai mwyaf eithafol (ac eithrio’r trothwyon ar gyfer gwasanaethau brys). Yn ystod digwyddiadau llifogydd eithafol cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl cadw’r datblygiad cyfan yn rhydd o lifogydd. O dan yr amgylchiadau hyn rhaid i lifogydd beidio â pheryglu bywyd felly rhaid dangos y bydd amodau o fewn y datblygiad yn ystod digwyddiad eithafol yn rhai y gellir eu goddef.

11.11 Mae Ffigur 6 isod yn nodi’r amodau o ran dyfnder a chyflymder llifogydd y gellir eu goddef ar gyfer datblygiad sydd dan fygythiad mawr a datblygiad sydd dan lai o fygythiad pan gânt eu hasesu yn erbyn y digwyddiad llifogydd eithafol 0.1%, yn cynnwys lwfans ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.

11.12 Nid yw mesurau lliniarol a mesurau cydnerthedd yn wyneb llifogydd yn gyfiawnhad digonol dros ganiatáu datblygiad os eir y tu hwnt i’r amodau y gellir eu goddef yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol. Mae cyflymderau a/neu ddyfnderoedd dŵr llifogydd uchel yn creu perygl i fywyd, mae ganddynt y potensial i achosi difrod strwythurol i adeiladau a gallent effeithio ar iechyd a lles pobl.

**Ffigur 6 – Amodau y gellir eu goddef mewn digwyddiad llifogydd eithafol**

| **Mathau o ddatblygiad newydd** | **Uchafswm dyfnder llifogydd (mm)** | **Uchafswm cyflymder dyfroedd llifogydd (metrau/eiliad)** |
|---|---|---|
| Datblygiad sydd dan fygythiad mawr | 600 | 0.15 |
| Datblygiadau sydd dan lai o fygythiad<br><br>Seilwaith sy’n gysylltiedig â datblygiadau sydd dan fygythiad | 600 | 0.3 |

| | | |
|---|---|---|
| mawr, e.e. meysydd parcio, mynediad, llwybrau a ffyrdd<br><br>Datblygiad sy'n gydnaws â Dŵr (yn gyfyngedig i'r elfennau adeiledig hynny o ddatblygiadau a all gael eu meddiannu gan bobl) | | |


11.13 Mae’r ffigurau uchod yn lefelau goddefiant lle y gall datblygiad newydd fod yn dderbyniol os yw lefelau llifogydd yn is na nhw. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob safle’n unigol, a ffurfio barn yng nghyd-destun yr amgylchiadau a allai fodoli ar y safle hwnnw. Nid yw’r gwasanaethau brys yn cael eu dangos oherwydd rhaid iddynt fod mewn mannau lle na fyddent yn dioddef unrhyw lifogydd mewn digwyddiad 0.1%, fel y nodir yn Ffigur 5. Yn achos datblygiadau ar gyfer y gwasanaethau brys ac eithrio canolfannau a hybiau rheoli, dylid defnyddio’r amodau ar gyfer datblygiadau sydd dan fygythiad mawr.

11.14 Wrth benderfynu a ellir rheoli canlyniadau digwyddiad llifogydd eithafol mewn modd derbyniol, dylai awdurdodau cynllunio gyfeirio at bolisïau a chamau gweithredu perthnasol a nodir yn eu Cynllun Datblygu ac a nodir gan Awdurdodau Rheoli Risg mewn cynlluniau wrth gefn lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i’r gofynion o ran mynediad ar gyfer gwasanaethau brys a gadael safleoedd.

11.15 Mae llifogydd yn peri perygl pan fo dŵr naill ai'n ddwfn neu’n llifo’n gyflym. Mae’r perygl yn uwch fyth pan fo’r ddau’n digwydd ar yr un pryd. Gall y matrics perygl llifogydd yn Ffigur 7 isod helpu awdurdodau cynllunio i asesu pa mor beryglus y gall digwyddiad llifogydd fod i wahanol bobl. Gellir defnyddio’r matrics i asesu perygl y tu mewn a’r tu allan i adeiladau a leolir mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, drwy blotio dyfnder a chyflymder disgwyliedig llifogydd yn ystod y digwyddiad llifogydd.

11.16 Dylai’r awdurdod cynllunio ystyried holl ddefnyddwyr posibl a thebygol unrhyw ddatblygiad arfaethedig wrth asesu a ellir ystyried bod y datblygiad yn darparu amgylchedd diogel yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol. Os na ellir darparu amgylchedd diogel, dylid gwrthod y cais cynllunio. Mae’r matrics yn dangos bod digwyddiadau lle ceir dŵr dwfn sy’n symud yn gyflym yn beryglus i bawb, gan gynnwys y gwasanaethau brys. Ni fyddai'n briodol cymeradwyo unrhyw fath o ddatblygiad a allai wynebu’r lefel hon o risg yn ystod unrhyw ddigwyddiad llifogydd eithafol.

## Ffigur 7 – Matrics perygl llifogydd




| Cod lliwiau | Categori perygl i bobl |
|---|---|
| | Perygl bach iawn |
| | Perygl i rai – mae'n cynnwys plant, yr henoed a'r eiddil |
| | Perygl i'r rhan fwyaf – mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol |
| | Perygl i bawb – mae'n cynnwys y gwasanaethau brys |

## 12. Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd

12.1 Os bydd yr awdurdod cynllunio'n fodlon bod y datblygiad a gynigir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn bodloni'r profion yn adran 10, neu os bydd perygl llifogydd o dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin yn effeithio ar gynnig fel y nodir yn adran 8, bydd angen cynnal asesiad llawn o ganlyniadau llifogydd fel rhan o'r cais cynllunio.

12.2 Prif amcan asesiad o ganlyniadau llifogydd yw datblygu dealltwriaeth lawn o'r canlynol:

- Perygl a chanlyniadau llifogydd ar y datblygiad;
- Perygl a chanlyniadau (h.y. effeithiau cyffredinol) y datblygiad ar berygl llifogydd mewn mannau eraill.

12.3 Rhaid i'r asesiad ddarparu ar gyfer ystod o senarios llifogydd posibl hyd at a chan gynnwys tebygolrwydd o 0.1% mewn unrhyw flwyddyn y bydd llifogydd yn digwydd. Rhaid gwneud lwfans ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r TAN hwn.

12.4 Mae Ffigur 9 yn nodi'r elfennau a'r data y dylid eu cynnwys mewn Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

12.5 Bydd yr asesiad yn helpu'r awdurdod cynllunio i benderfynu a yw perygl a chanlyniadau llifogydd yn dderbyniol ac a ellir eu rheoli'n briodol dros oes y datblygiad. Gellir defnyddio'r asesiad hefyd i gadarnhau a ellid ymgorffori mesurau osgoi neu fesurau lliniarol priodol o fewn dyluniad y datblygiad i sicrhau, drwy gydol ei oes, fod y datblygiad yn lleihau i'r eithaf y perygl i fywyd, y difrod i eiddo a'r tarfu ar bobl sy'n byw ac yn gweithio ar y safle ac na fydd yn cynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill.

12.6 Rhaid i awdurdodau cynllunio gydnabod nad yw'r ffaith bod mesurau diogelu'n bodoli yn dileu perygl yn gyfan gwbl a bod rhai datblygiadau dan fwy o fygythiad nag eraill. Gall tir a ddiogelir gan amddiffynfeydd fod dan fygythiad eithriadol os bydd dŵr yn llifo dros yr amddiffynfeydd neu'n torri drwyddynt, oherwydd cyflymder y llifogydd dan amgylchiadau o'r fath. At hynny, gall dŵr llifogydd gario llawer iawn o falurion, a allai achosi rhwystrau ger strwythurau. Lle y bo'n briodol, dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos bod modd rheoli canlyniadau llifogydd mewn modd derbyniol os bydd dŵr yn llifo dros amddiffynfeydd, yn torri drwyddynt, neu os bydd yn creu rhwystrau. Bydd angen hyn ar gyfer safleoedd sydd â'r math o amddiffynfeydd y gellir torri drwyddynt neu eu blocio, gan gynnwys argloddiau llifogydd, morgloddiau a chwlfertau.

**Ffigur 8 – Gofynion Technegol Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd**

| | |
|---|---|
| 1. Cynllun lleoliad yn nodi'r holl ffynonellau llifogydd posibl gan gynnwys dŵr yn mynd yn uwch nag amddiffynfeydd presennol a/neu'n torri drwyddynt ac unrhyw strwythurau mewn sianelau a allai fod â thuedd i gael eu blocio. | *Dylai'r cynllun gael ei gyflwyno ar raddfa briodol a dylai gynnwys nodweddion daearyddol, enwau strydoedd a nodi'r holl gyrsiau dŵr neu gyrff dŵr eraill yn y cyffiniau. Dylai hyn gynnwys arllwysfeydd draenio ac, os oes angen, croesgyfeirio at eu trefniadau gweithredol yng nghorff yr adroddiad.* |
| 2. Cynllun o'r safle yn dangos lefelau presennol ac arfaethedig sy'n gysylltiedig â Datwm Ordnans. | *Gall lefelau arfaethedig datblygiad fod yn ddangosol yn unig ar y cam hwn; fodd bynnag, dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gadarnhau lefelau datblygiad i reoli peryglon a chanlyniadau llifogydd.* |
| 3. Cynllun sy'n nodi unrhyw fesurau lliniaru llifogydd sydd eisoes yn eu lle. | *Os oes gan safle datblygiad fesurau lliniaru llifogydd yn barod, dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd asesu effaith a chanlyniadau unrhyw ddigwyddiad torri/llifo drosodd. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r safon amddiffyn a ddarperir gan fesurau o'r fath dros oes gyfan y datblygiad.* |
| 4. Asesiad o'r holl ffynonellau llifogydd posibl gan gynnwys, ymhlith eraill, afonydd, y môr, symudiad tonnau, dŵr daear, llif wyneb neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. | *Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gynnwys amcangyfrifon o lifoedd llifogydd eithafol o'r trothwy i'r llifogydd 0.1% (1 mewn 1000 o flynyddoedd), gan gynnwys lwfans ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.* |
| 5. Trawstoriadau presennol ac arfaethedig o'r safle yn dangos lefelau arfaethedig y datblygiad a lefelau'r safle yn berthynol i'r ffynhonnell llifogydd, ac i lefelau dŵr a ragwelir a thebygolrwyddau cysylltiedig. | |

| | |
|---|---|
| 6. Asesiad o ddyfnder brig llifogydd a chyflymderau posibl llifogydd mewn gwahanol rannau o'r safle, hyd tebygol digwyddiadau llifogydd ac effeithiau tebygol llifogydd. | *Rhaid i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos bod y datblygiad yn gallu cyrraedd y trothwyon rhydd o lifogydd a nodir yn Ffigur 6 a'r amodau y gellir eu goddef a nodir yn Ffigur 7 (gan gynnwys lwfans ar gyfer y newid yn yr hinsawdd) fel sy'n ofynnol ar gyfer y math o ddatblygiad.* |
| 7. Gwybodaeth am faint a dyfnder digwyddiadau llifogydd yn y gorffennol a rhagfynegiadau ar gyfer y dyfodol. | *Rhaid i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd asesu Digwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd a pherygl llifogydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.* |
| 8. Cynllun o'r ardal i ddangos llwybrau llifo dros y tir a llwybrau mynediad/gadael priodol o safle'r datblygiad arfaethedig sy'n weithredol dan bob math o amodau. | *Dylid darparu lefelau yn berthynol i Ddatwm Ordnans a dyfnderau/cyflymder disgwyliedig llifogydd yn y digwyddiad llifogydd 0.1% a'r newid yn yr hinsawdd.* |
| 9. Cynllun a disgrifiad o unrhyw strwythurau a allai ddylanwadu ar hydroleg leol, gan gynnwys pontydd, pibellau/dwythellau sy'n croesi'r cwrs dŵr, cwlfertau. | *Rhaid i hyn gynnwys asesiad o'r tebygolrwydd y bydd strwythurau o'r fath yn cael eu tagu gan ysgyrion a'r canlyniadau ar gyfer llifogydd ar y datblygiad ac mewn mannau eraill.* |
| 10. Asesiad o oblygiadau unrhyw ddraeniau neu garthffosydd, yn rhai presennol neu arfaethedig, ar y safle yn ystod digwyddiadau llifogydd. | *Rhaid i'r fethodoleg asesu fod wedi'i nodi'n glir.* |
| 11. Asesiad o'r cyfaint storio llifogydd a fyddai'n cael ei golli a/neu ei ddisodli o'r safle. | *Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd asesu amryw gyfnodau dychwel llifogydd hyd at a chan gynnwys y digwyddiad llifogydd eithafol 0.1% a'r newid yn yr hinsawdd dros oes datblygiad. Dylid gwneud iawn am unrhyw gyfaint storio a gaiff ei golli ar sail gyfatebol a 'lefel am lefel' lle y bo'n bosibl (gweler paragraffau 13.8-13.9). Dylai effaith debygol unrhyw ddŵr a ddisodlwyd mewn mannau eraill gael ei hasesu hefyd.* |

| | |
|---|---|
| 12. Asesiad o'r dŵr ffo sy'n debygol o gael ei greu o'r datblygiad. | *Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddarparu manylion am sut y bydd dŵr ffo yn cael ei reoli i sicrhau nad oes perygl o lifogydd dŵr wyneb i'r datblygiad na mannau eraill.* |
| 13. Manylion mesurau osgoi llifogydd, lliniaru llifogydd a chydnerthedd yn wyneb llifogydd y bwriedir eu rhoi ar waith. | |
| 14. Manylion i ddangos na fydd y datblygiad yn achosi nac yn gwaethygu natur ac amlder perygl llifogydd mewn mannau eraill. | |
| 15. Asesiad o'r risgiau ar ôl adeiladu unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol. | *Dylid ystyried perfformiad unrhyw fesurau o'r fath mewn digwyddiadau eithafol sy'n fwy na'r rhai y maent wedi'u dylunio ar eu cyfer a dylid darparu gwybodaeth am yr ystyriaeth a roddwyd i leihau i'r eithaf beryglon i fywyd, eiddo a threftadaeth naturiol.* |
| 16. Crynodeb eglur a chynhwysfawr o'r asesiad sy'n dangos y canlyniadau ac argymhellion. | |

12.7 Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynghori’r awdurdod cynllunio ynghylch perygl llifogydd o afonydd a'r môr i’r datblygiad arfaethedig a mannau eraill, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Dylai’r awdurdod cynllunio geisio cyngor gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar y risg sy'n gysylltiedig â llifogydd dŵr wyneb a ffynonellau lleol eraill o lifogydd, gan gynnwys cyrsiau dŵr cyffredin. Dylai hyn alluogi’r awdurdod cynllunio i ffurfio barn ynghylch derbynioldeb canlyniadau llifogydd. Lle caniateir datblygiad, rhaid i ddatblygwyr roi cynlluniau neu fesurau ar waith i reoli’r canlyniadau hynny. Rhaid i fesurau o’r fath allu cael eu gweithredu ar y cam priodol fel rhan o’r datblygiad a, lle y bo angen, rhaid darparu ar gyfer cynnal a chadw hirdymor, yn unol â pharagraff 14.15.

12.8 Gallai effaith llifogydd ar seilwaith dŵr neu garthffosiaeth gael effeithiau trychinebus ar iechyd y cyhoedd a’r amgylchedd drwy achosi i ddŵr yfed gael ei halogi, neu achosi i garthffosiaeth gael ei chymysgu â dŵr llifogydd. Gallai dŵr llifogydd fynd i mewn i systemau carthffosiaeth gyhoeddus heb lawer o reolaeth a byddai’r cyfuniad o garthffosiaeth a dŵr llifogydd yn effeithio ar eiddo a’r amgylchedd. Dylai’r asesiad o ganlyniadau ystyried mynediad i mewn ac allan, er enghraifft os na all ymgymerwr statudol gael mynediad at ei gyfarpar yn ystod llifogydd yna bydd hyn yn hwyhau’r amser cyn y gallai camau unioni ddigwydd. Gall fod yn angenrheidiol ymgynghori â’r ymgymerwr carthffosiaeth perthnasol i gael cyngor.

12.9 Gall fod i gynigion datblygu ar dir neu ar bwys tir a all fod wedi’i halogi oblygiadau i ansawdd dŵr yn ystod llifogydd. Lle mae safleoedd o’r fath dan ddŵr mae risg gysylltiedig y gallai rhai difwynwyr gael eu symud a pheri risg i ddyfroedd wyneb neu drwytholchi i ddyfroedd daear. Hefyd, lle mae datblygu’n cynnwys, er enghraifft, storio/defnyddio olewau, tanwyddau neu gemegolion, proses ddiwydiannol neu storio neu drin deunyddiau gwastraff, mae perygl i’r amgylchedd dŵr os bydd y safle’n mynd dan ddŵr. Dylid cymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad drwy fod yn rhan o’r asesiad o ganlyniadau llifogydd.

**Rolau a chyfrifoldebau allweddol**

Paratoi Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd – Ymgeiswyr a darpar ddatblygwyr

Ystyried Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd a phenderfynu ar geisiadau cynllunio – yr awdurdod lleol

Cyngor ar Asesu Canlyniadau Llifogydd (afonydd a'r môr) – Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor ar Asesu Canlyniadau Llifogydd (dŵr wyneb, cyrsiau dŵr bach, dŵr daear ac erydu arfordirol) – Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol

Cyngor arbenigol i'r awdurdod cynllunio ar Asesu Canlyniadau Llifogydd – ymgymerwyr carthffosiaeth, adrannau Cynllunio at Argyfwng a'r gwasanaethau brys

## 13. Dyluniad cydnerth

13.1 Mae gwella cydnerthedd cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd yn awr ac o dan senarios posibl o ran y newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth i bob awdurdod cynllunio. Bydd ystyriaeth i ddylunio yn ffactor allweddol wrth benderfynu a yw datblygiad yn dderbyniol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Bydd y datrysiadau mwyaf effeithiol yn cyfuno mesurau cydnerthedd ar lefel y safle ac ar lefel unedau eiddo. Dylai Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd strategol a manwl ddarparu cyngor ynghylch y mesurau sy'n cynnig y dull gorau o amddiffyn rhag llifogydd.

13.2 Mae gan reoliadau cynllunio ac adeiladu rôl ategol o ran rheoli llifogydd a bydd gofyn defnyddio mesurau lliniaru llifogydd a mesurau gwrthsefyll difrod er mwyn sicrhau bod canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Dylai unrhyw ddatblygiad ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15 fod yn gydnerth yn wyneb llifogydd ar lefel y safle ac ar lefel yr unedau eiddo hefyd.

13.3 Ar lefel unedau eiddo, y nod y dylid anelu ato yw lleihau i'r eithaf faint o ddŵr sy'n gallu mynd i mewn i'r eiddo drwy ddefnyddio mesurau gwrthsefyll llifogydd a chyfyngu ar y difrod a achosir os bydd dŵr yn mynd i mewn fel bod modd adfer yr adeilad i'w ddefnydd llawn yn gyflym. Gall nodweddion dylunio syml, megis codi lefelau lloriau, gan sicrhau bod yr eiddo'n parhau'n hygyrch i bawb, neu gadw cylchedau trydanol uwchlaw lefelau y mae llifogydd yn debygol o effeithio arnynt, alluogi adeiladau i wrthsefyll llifogydd ac ymdopi â llifogydd yn well. Bydd defnyddio deunyddiau priodol yn gwella cydnerthedd datblygiad hefyd, er enghraifft drwy osgoi defnyddio carpedi mewn ardaloedd ar y llawr gwaelod. Anogir datblygwyr i gysylltu â'u hyswirwyr yn gynnar yn y cyfnod cynllunio dyluniad, gan y gall integreiddio nodweddion dylunio priodol ac effeithiol ddangos i yswirwyr bod perygl llifogydd yn cael ei leihau. Gall hyn helpu i sicrhau premiymau yswiriant is yn ystod y gwaith adeiladu ac i feddianwyr terfynol y datblygiadau newydd.

13.4 Gall datblygiadau dwysedd uwch a defnydd cymysg gynnig mwy o botensial i ddylunio mewn ffordd gydnerth. Er enghraifft, efallai y bydd ardaloedd ar y llawr gwaelod yn gallu darparu ar gyfer elfennau o'r datblygiad sydd dan lai o fygythiad, megis defnydd masnachol, ar yr amod bod gan ddefnyddiau sydd dan fygythiad mawr ar loriau uchaf drefniadau boddhaol ar gyfer mynd i mewn ac allan ohonynt os bydd llifogydd a bod yr adeilad cyfan yn bodloni'r profion perthnasol yn adrannau 10 ac 11.

13.5 Dylai mesurau gwrthsefyll llifogydd a chydnerthedd ar lefel y safle fod â dau nod, sef lleihau faint o ddŵr llifogydd sy'n gallu mynd i'r safle, a rheoli unrhyw ddŵr sy'n cyrraedd y safle mewn ffordd effeithiol fel nad yw'n effeithio ar aelwydydd a meddianwyr/defnyddwyr eraill. Yr enw a roddir i'r ail

elfen hon yw ‘dylunio ar gyfer gormodiant’. Gall olygu defnyddio seilwaith gwyrdd, priffyrdd a phalmentydd i sianelu ac ailgyfeirio dŵr, a defnyddio mannau agored neu feysydd parcio i storio dŵr dros dro. Mae integreiddio systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau yn gyfle i sicrhau nifer o ganlyniadau cadarnhaol, drwy gyfuno asedau hollbwysig ar gyfer draenio ac amddiffyn rhag llifogydd â seilwaith gwyrdd a thir o ansawdd uchel ar gyfer y cyhoedd.

*Mae cyngor ar sut i greu datblygiadau cydnerth a all wrthsefyll llifogydd drwy ddylunio ar gael gan Gymdeithas Ymchwilio a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA), gan gynnwys Cod Ymarfer a Chanllawiau ar Gydnerthedd Eiddo yn wyneb Llifogydd.*[15]

**Seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well**

13.6 Mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg yn buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus bob blwyddyn i uwchraddio seilwaith amddiffyn rhag llifogydd a darparu seilwaith newydd. Diben y buddsoddiad hwn yw sicrhau bod cartrefi, cymunedau a busnesau presennol yn cael eu diogelu'n well rhag llifogydd. Unig ddiben seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd yw diogelu lleoedd a chymunedau presennol sydd eisoes yn wynebu perygl llifogydd. Nid yw adeiladu seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd er mwyn galluogi datblygiadau newydd yn dderbyniol am ei fod yn dileu ardaloedd storio llifogydd gwerthfawr sy'n golygu bod mwy o gartrefi a busnesau yn wynebu perygl llifogydd.

13.7 Mae defnyddio cynlluniau rheoli llifogydd naturiol yn flaenoriaeth allweddol i ddarparu dulliau mwy naturiol o amddiffyn rhag llifogydd.[16] Fodd bynnag, bydd amgylchiadau lle bydd gan Awdurdodau Rheoli Risg bob cyfiawnhad dros gynnig amddiffynfeydd artiffisial newydd neu well rhag llifogydd er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n bodoli eisoes yn cael eu diogelu'n well rhag llifogydd ac effeithiau llifogydd.

13.8 Fel rheol, bydd seilwaith amddiffyn rhag llifogydd yn dargyfeirio dŵr i ffwrdd o ddatblygiad, a all arwain at gynyddu'r risg o lifogydd yn rhywle arall. Rhaid ystyried y manteision a'r effeithiau niweidiol yn llawn ac yn ofalus, ar ac oddi ar y safle (weithiau y tu hwnt i ffiniau awdurdod lleol), pan gynigir seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well. Rhaid i awdurdodau cynllunio fodloni eu hunain bod y manteision i'r ardal warchodedig yn amlwg yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol mewn mannau eraill.

[15] Mae Cod Ymarfer CIRIA ar gyfer gwydnwch llifogydd eiddo C790 ar gael o https://www.ciria.org/ (yn Saesneg yn unig)
[16] Ceir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru: https://www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru

13.9 Mae darparu gorlifdir cydadferol yn ffordd effeithiol o osgoi effeithiau niweidiol mewn mannau eraill, ond nid yw bob amser yn opsiwn ymarferol. Gall cynyddu'r risg neu ddifrifoldeb llifogydd yn rhywle arall fod yn dderbyniol os yw'r effaith ar dir heb ei ddatblygu neu heb ei feddiannu. Os yw'r tir yr effeithir arno yn orlifdir swyddogaethol presennol, bydd y budd o gryfhau amddiffyniad llifogydd i eiddo preswyl fel arfer yn drech nag effaith negyddol llifogydd dwysach ar y gorlifdir. Lle byddai seilwaith amddiffyn rhag llifogydd yn arwain at gynnydd yn y risg i eiddo sydd eisoes mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, byddai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn llywio penderfyniad yr awdurdod cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn ofalus a yw'r risg uwch o dan wahanol senarios llifogydd yn rhesymol ac yn oddefadwy, gan ddefnyddio'r canllawiau a nodir yn adran 11. Os yw anfantais i dir trydydd parti yn cael ei dderbyn rhaid hysbysu'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn eu galluogi i roi eu barn ac, ar wahân i'r broses gynllunio, negodi iawndal, o bosibl.

13.10 Ni ddylai seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well beri i eiddo sydd wedi'i leoli mewn man arall sydd ar hyn o bryd heb fawr o risg (Parth 1) gael ei roi mewn perygl o lifogydd (Parth 2 neu Barth 3).

13.11 Dylai buddsoddiad mewn amddiffynfeydd newydd neu well rhag llifogydd geisio sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, megis storio carbon, hamdden, gwelliannau i fioamrywiaeth a lles cymdeithasol. Bydd y rhain yn galluogi Awdurdodau Rheoli Risg i ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn eu nodau llesiant, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016.Gall buddsoddiadau mewn seilwaith amddiffyn rhag llifogydd sicrhau mwy o werth cyffredinol o'u cyfuno â buddsoddiad arall, er enghraifft mewn seilwaith teithio llesol, gwelliannau i dir cyhoeddus neu gynlluniau adfywio.

## 14. Ystyriaethau penodol ar gyfer ceisiadau cynllunio

14.1 Bydd tueddiad tir i brofi llifogydd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Ar gyfer cynigion sydd wedi'u lleoli ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15, bydd angen i ddatblygwyr ddangos, mewn modd sy'n argyhoeddi'r awdurdod cynllunio, y gellir cyfiawnhau'r datblygiad yn y lleoliad hwnnw a bod canlyniadau sy'n gysylltiedig â llifogydd yn dderbyniol.

14.2 Ar gyfer y datblygiadau hynny a allai mewn egwyddor fod yn dderbyniol ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15, rhaid cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gyda'r cais cynllunio. Lle darperir gwybodaeth annigonol yn yr asesiad i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i gynghori ynghylch canlyniadau llifogydd, dylai'r awdurdod cynllunio ddefnyddio ei bwerau i ofyn am ragor o wybodaeth, a allai arwain at oedi cyn gwneud penderfyniad. Os na chaiff gwybodaeth y gofynnwyd amdani ei darparu o fewn cyfnod rhesymol o amser neu, os na fydd yn darparu digon o fanylion, gall hyn fod yn rheswm dros wrthod. Dylai'r asesiadau hyn gael eu cynnal gan berson cymwys â chymwysterau addas a llywio'r broses o ddylunio manwl a dewis mesurau lliniaru, lle y bo'n briodol. Mae gofynion technegol asesiadau o ganlyniadau llifogydd i'w gweld yn adran 12.

### Trafodaethau cyn ymgeisio

14.3 Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan awdurdodau cynllunio wrth baratoi cynigion datblygu i sicrhau bod y cais cynllunio'n darparu'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn i benderfynwyr ac ymgyngoreion ystyried y cais. Dylai gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgeisio gadarnhau cwmpas yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, gan sicrhau ei fod yn gymesur â natur, maint a chynllun y datblygiad arfaethedig, a chadarnhau a oes unrhyw waith modelu llifogydd presennol a pherthnasol yn bodoli'n barod. Anogir ymgysylltu amlochrog rhwng yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio, y Corff Cymeradwyo SDCau a Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer gorau.

### Ymgynghori

14.4 Pan fydd awdurdod cynllunio yn cael cais cynllunio i ddatblygu ym Mharth 2, Parth 3 neu Barthau Amddiffynnol TAN 15, dylai wneud gwaith ymgynghori mewnol priodol mewn perthynas â'i gyfrifoldebau amddiffyn rhag llifogydd fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn ogystal ag ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.[17]

[17] Fel y nodwyd yn adrannau 7 a 10, nid yw canlyniadau llifogydd sy'n gysylltiedig â datblygiadau dan fygythiad mawr yn dderbyniol ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr) ac nid yw'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor ar y math hwn o gynnig.

14.5 Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor manwl i’r awdurdod cynllunio ynghylch canfyddiadau a chasgliadau’r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â llifogydd o afonydd a'r môr, gan gynnwys yr effaith ar lifogydd mewn mannau eraill ac effaith gwaith lliniaru llifogydd ar yr amgylchedd ac unedau eiddo eraill. Dylai'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol roi cyngor i'r awdurdod cynllunio ar ganfyddiadau a chasgliadau'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb, llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin ac erydu arfordirol. Lle mae’r awdurdod cynllunio o blaid mynd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, dylai ei hysbysu cyn rhoi caniatâd gan roi digon o amser iddo gyflwyno sylwadau pellach. Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd heb roi digon o amser yn gyntaf i Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ymateb i’r cynnig.

**Canllawiau pellach ar gyfer amgylchiadau penodol**

**Safleoedd mewn dau barth llifogydd neu fwy**

14.6 Os bydd safle wedi'i leoli mewn dau barth llifogydd neu fwy, bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio asesu'r cynnig, gan ystyried pob un o'r defnyddiau tir arfaethedig, yn erbyn pob un o'r parthau llifogydd y mae'n gymwys iddynt, yn unol â'r meini prawf yn adran 10. Bydd angen cynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y cynnig yn unol ag adrannau 11 a 12 hefyd. Dylid ystyried cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wrth benderfynu a yw canlyniadau llifogydd yn dderbyniol, o ran y peryglon i bobl ac eiddo. Os na fydd y cynnig, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yn cydymffurfio â'r profion yn adrannau 10 a 11, dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.

**Ceisiadau ar gyfer estyniadau a datblygiad gan ddeiliaid tai**

14.7 Ni ddylai ceisiadau ar gyfer estyniadau neu addasiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd godi materion arwyddocaol ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- maent yn debygol o gael effaith uniongyrchol ac andwyol ar gwrs dŵr neu ar eu hamddiffynfeydd rhag llifogydd;
- byddent yn rhwystro mynediad at gyfleusterau amddiffyn rhag llifogydd a rheoli llifogydd; neu
- gallent gael effaith gronnol ar gapasiti storio llifogydd neu lifoedd llifogydd.

14.8 Ni fydd yn ofynnol cyfiawnhau lleoliad datblygiad gan ddeiliad tŷ ond os yw'n debygol y bydd mân waith o’r fath yn cael effaith andwyol, yna bydd angen i ganlyniadau llawn y datblygiad gael eu hasesu. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod cynllunio hysbysu'r datblygwr neu'r ymgeisydd fod angen iddo ddarparu Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

14.9 Lle mae Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi dynodi y byddai estyniadau neu addasiadau lluosog mewn ardal yn debygol o gael effaith gronnol anffafriol ar berygl llifogydd, dylai awdurdodau cynllunio ystyried gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd. Wedyn byddai'n ofynnol i ddatblygiadau gan ddeiliaid tai gael caniatâd cynllunio, gan roi cyfle i awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth lawn i'r cynnig ac unrhyw effaith ar berygl llifogydd.

**Mannau agored cyhoeddus, hamdden ac amaethyddiaeth**

14.10 Mae defnyddio tir sydd mewn perygl o brofi llifogydd ar gyfer amaethyddiaeth, hamdden ac fel man agored cyhoeddus yn debygol o fod yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, efallai na fydd adeiladau na strwythurau ategol sy'n ofynnol ar gyfer y defnyddiau hyn, sy'n amodol ar gymeradwyaeth rhag blaen, yn dderbyniol. Fel gyda phob defnydd arall, bydd cymhwyso adran 11 yn berthnasol lle mae llifogydd yn berygl, i sicrhau bod canlyniadau llifogydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol a'u bod yn gallu cael eu rheoli'n effeithiol.

**Safleoedd carafanau a gwersylla**

14.11 Mae safleoedd carafanau, gwersylla a safleoedd meddiannaeth dros dro o fath arall yn dod â phroblemau penodol mewn perthynas â llifogydd yn eu sgil. Maent yn aml wedi cael eu lleoli ar safleoedd arfordirol neu ar lannau afonydd sy'n dueddol o brofi llifogydd. Mae ansefydlogrwydd carafanau yn rhoi eu meddianwyr, ac eraill, mewn perygl arbennig a gall fod yn anodd gweithredu system effeithiol i rybuddio ynghylch llifogydd. Ni ddylid caniatáu datblygiadau o'r fath (gan gynnwys unrhyw newid defnydd, estyniadau i feddiannaeth dymhorol ac estyniadau i safleoedd presennol) ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr). Dim ond os bydd datblygiadau yn bodloni'r profion yn adran 10 ac adran 11 y dylid eu hystyried ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr).

14.12 Os bydd awdurdodau cynllunio yn tueddu i roi caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd carafanau/gwersylla neu lety gwyliau dros dro arall ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr) neu Barthau Amddiffynnol TAN 15, dylai amod cynllunio sicrhau bod hysbysiadau rhybuddio addas yn cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw'n barhaus er mwyn hysbysu pobl sy'n mynd ar y safle. Dylai'r amod hefyd sicrhau bod cynlluniau rhybuddio a gwacáu effeithiol yn cael eu llunio. Dylai'r amod ei gwneud yn ofynnol i leoliad yr hysbysiadau ar y safle gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo a nodi y dylai'r gweithdrefnau rhybuddio a gwacáu diweddaraf gael eu dangos arnynt. Rhaid i'r amod gael ei ddrafftio i fodloni'r chwe phrawf a nodir yng Nghylchlythyr 016/2014 Llywodraeth Cymru: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.[18] Dylid cymryd camau

[18] Cyhoeddir Cylchlythyr 016/2014 yma: https://llyw.cymru/defnyddio-amodau-cynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014

gorfodi os yw arwyddion o'r fath yn dyddio, er mwyn sicrhau bod hysbysiadau rhybuddio effeithiol wastad yn bresennol. Dylai sefydliadau carafanio a gwersylla gydgysylltu â'r awdurdod cynllunio a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw gyfyngiadau o ran llifogydd a allai fod yn berthnasol a'r trefniadau ar gyfer hysbysu defnyddwyr ynghylch y systemau rhybuddio a'r gweithdrefnau gwacáu.

**Camlesi a chyrff dŵr artiffisial eraill**

14.13 Mae camlesi, fel dyfrffyrdd mewndirol, yn gweithredu'n wahanol i afonydd a chyrsiau dŵr eraill fel y'u diffiniwyd dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Er y bydd rhai wedi'u lleoli o fewn ardaloedd perygl llifogydd afonydd neu lifogydd arfordirol, fel rheol gall camlesi fod â nifer cyfyngedig o ffosydd porthi, sy'n aml yn cael eu rheoli er mwyn iddynt allu cael eu dargyfeirio i ffwrdd oddi wrth y gamlas pan geir llifogydd. Mae llifddorau yn cael eu rheoli i ollwng dŵr dros ben o'r gamlas yn ystod cyfnodau o fewnlif uchel i sicrhau nad yw lefelau dŵr yn mynd y tu hwnt i'r bwrdd rhydd ac yn llifo drosto gan greu llifogydd ar dir cyfagos. Mae gan gamlesi beth gallu i storio dŵr cyn ei fod yn cael ei ollwng hefyd, gan wanhau brigau llifogydd a lleihau'r potensial ar gyfer llifogydd. Mewn rhai achosion, mae camlesi'n croesi ffiniau dalgylchoedd afonydd, a gellid derbyn dŵr mewn un dalgylch a'i ollwng mewn un arall. Dylid ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a pherchnogion eraill camlesi ynghylch cynigion yng nghyffiniau camlesi, ffosydd porthi a nentydd a gaiff eu bwydo o strwythurau gorlifo camlesi, megis coredau a llifddorau.

14.14 Mae goblygiadau datblygu yng nghyffiniau camlesi a chyrff dŵr artiffisial eraill yn ddeublyg. I ddechrau, gan nad yw cysyniad gorlifdir yn berthnasol, efallai na fydd datblygu ar lan y dŵr neu ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn wynebu'r un cyfyngiadau oherwydd perygl llifogydd â datblygiadau ar hyd glan afon. Felly gall camlesi gadw eu potensial i weithredu fel sbardunau ar gyfer adfywio trefol a gwledig. Yn ail, ni ddylai awdurdodau sy'n ystyried datblygiad yng nghyffiniau camlesi anwybyddu eu capasiti hwy eu hunain i achosi llifogydd lleol, er enghraifft lle mae sianeli gorlifo'n methu â gweithredu neu lle mae argloddiau camlesi'n methu neu lle mae dŵr yn torri drwyddynt. Mae gan argaeau a chronfeydd dŵr botensial tebyg ar gyfer llifogydd a allai fod ar raddfa fawr. Dylid mabwysiadu dull rhagofalus mewn lleoliadau sydd dan fygythiad a dylai'r fethodoleg ragofalus gael ei chymhwyso mewn ymgynghoriad â gweithredwr y gamlas neu berchennog yr argae/y gronfa ddŵr.

**Cyfraniadau Datblygwyr**

14.15 O dan rai amgylchiadau, gellir caniatáu datblygiadau ar yr amod y rhoddir mesurau lliniaru priodol ar waith neu y caiff seilwaith amddiffyn rhag llifogydd presennol ei wella er mwyn rheoli perygl llifogydd. Fel arfer bydd disgwyl i ddatblygwyr ysgwyddo costau gwaith lliniaru, adeiladu a chynnal a chadw hirdymor sy'n angenrheidiol. Lle y bo angen, dylai awdurdodau

cynllunio ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wneud cyfraniad ariannol drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu lunio cytundeb o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn sicrhau y gellir darparu'r gwelliannau i seilwaith. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y datblygwr yn gwneud unrhyw waith angenrheidiol a bod ymrwymiadau o ran gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol yn cael eu cyflawni. Fel arfer, bydd yn briodol breinio'r seilwaith canlyniadol, sydd wedi'i adeiladu i foddhad yr awdurdod gweithredu, yn yr awdurdod gweithredu, gyda swm gohiriedig wedi'i neilltuo i dalu am y gwaith cynnal a chadw am 30 mlynedd. Ar ôl yr amser hwnnw, byddai'n rhesymol ystyried mai ased cyhoeddus a ddylai gael ei gynnal a'i gadw gydag arian o bwrs y wlad yw'r seilwaith.

14.16 Lle byddai gwaith o'r fath yn darparu budd ehangach, gall y cyllid a ddarperir gan y datblygwr fod yn gymesur â'r budd y mae'n ei gael. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl mai dyraniad rhesymol fyddai bod y datblygwr yn rhoi cyllid i ddarparu'r gwelliannau i seilwaith, sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod gweithredol a'u cynnal a'u cadw ganddo. Gellir defnyddio amod tebyg i amod "Grampian" lle gellir gwarantu y byddai'r cynllun cyfan yn cael ei gyllido a'i adeiladu cyn bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen.

14.17 Caiff cyngor ar ddefnyddio amodau mewn caniatadau cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio ei nodi yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 a Chylchlythyr Swyddfa Cymru 13/97 yn y drefn honno.

14.18 Ar ôl cael cyngor gan Awdurdodau Rheoli Risg, bydd angen i'r awdurdod cynllunio fod wedi'i argyhoeddi bod y gwelliannau i seilwaith yn gallu cael eu darparu a bydd yn pennu'r cyfraniad sy'n ofynnol gan y datblygwr. Oni bai bod awdurdod cynllunio wedi'i argyhoeddi y bydd y datblygwr yn ddarostyngedig i rwymedigaeth effeithiol i ddarparu'r cyfraniad angenrheidiol, dylid gwrthod y cais.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)**

14.19 Mae caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer gwaith newydd i amddiffyn yr arfordir ac i wella gwaith presennol. Mae gwaith i amddiffyn yr arfordir (ac eithrio cynnal a chadw neu ailadeiladu gwaith presennol) wedi'i gwmpasu gan atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017 ac mae'n ddigon posibl y bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol cyn y gellir rhoi caniatâd cynllunio. Lle mae gwaith i amddiffyn yr arfordir yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle y mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rywogaethau 2017 (ac mae'n "brosiect neu gynllun perthnasol") bydd "asesiad priodol" yn ofynnol.

14.20 Os yw’r gwaith ar ochr y môr i farc penllanw’r gorllanw, mae’n ofynnol cael trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru dan ddarpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009. Wrth ystyried a ddylid rhoi trwydded, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i’r angen i ddiogelu amgylchedd y môr, ymhlith pethau eraill. Efallai y bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 cyn y gellir rhoi trwydded. Felly, dylid ystyried cydgysylltu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer caniatâd cynllunio a thrwyddedu morol yn gynnar yn y broses o gynllunio a dylunio prosiectau sy'n ymwneud ag amddiffynfeydd arfordirol.

14.21 Ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd/lleddfu llifogydd, bydd angen i awdurdodau cynllunio benderfynu a oes Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Pryd bynnag y bo modd, dylai gwarchod strwythurau naturiol sy’n amddiffyn rhag llifogydd, er enghraifft twyni tywod, fod yn opsiwn i’w ystyried bob amser a dylid ei integreiddio â chamau i sicrhau manteision eraill yng nghyd-destun Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

14.22 Hefyd, gall gwelliannau draenio tir a ganiateir dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y’i diwygiwyd, olygu bod Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol o dan Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999. Dylai datblygwyr gysylltu â’r awdurdod cynllunio mor gynnar â phosibl i ganfod a oes angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ac, os felly, yr hyn y dylid ei gynnwys ynddo.

14.23 Gall perygl llifogydd fod yn elfen i’w hystyried fel rhan o ddatganiad amgylcheddol ar gyfer datblygiad y mae angen cynnal Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer. Mae hyn yn debygol o ddigwydd os bydd effaith datblygiad ar berygl llifogydd yn effeithio ar safleoedd cadwraeth dynodedig neu’n peryglu opsiynau rheoli afonydd a thraethlin neu gynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth. Nid yw’r amgylchiadau hyn yn gynhwysfawr a dylai datblygwyr gysylltu â’r awdurdod cynllunio i gadarnhau a oes angen cynnal Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiad ac a ddylai cwmpas datganiad amgylcheddol gynnwys perygl llifogydd. Ceir cyngor pellach ynghylch Asesu’r Effaith Amgylcheddol yn adran 6.2 y Llawlyfr Rheoli Datblygu a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99.